Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

Ebrill 2026

Noder: dim ond ar gyfer helpu pobl i ddeall Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) 2026 y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

## Cynnwys

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL .... 3
1. Disgrifiad .... 3
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol .... 4
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael .... 5
4. Ymgynghori .... 14
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth .... 18
RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL .... 20
6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol .... 20
7. Yr opsiynau .... 31
8. Opsiynau, costau a manteision .... 35
9. Asesiadau o'r Effaith .... 51
10. Adolygu ar ôl gweithredu .... 55
Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol .... 56
Atodiad 2: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog .... 57

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

Mae Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn ei gwneud yn drosedd gweithredu stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru a'i ddefnyddio, neu dan wybod ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio, i rasio milgwn. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd hefyd fod yn gysylltiedig â threfnu ras milgwn sy'n digwydd, neu y bwriedir iddi ddigwydd, yng Nghymru. Diffinnir rasio milgwn fel cymell milgwn i redeg o amgylch trac ar ôl llith sydd wedi ei actifadu’n fecanyddol ac mae hyn yn cynnwys amseru neu hyfforddi milgi wrth iddo redeg o amgylch trac.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Roedd gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn Neddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) ("y Ddeddf") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

### Cyflwyniad

Amcan y polisi yw gwahardd rasio milgwn yng Nghymru.

### Sail

3.1. Roedd cefnogaeth sylweddol ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd i wahardd rasio milgwn, wedi'i sbarduno gan bryderon am les anifeiliaid. Mae llawer yn credu bod angen dod â'r arfer i ben er mwyn amddiffyn milgwn rhag niwed a rhag eu hecsbloetio a'u masnachu. Mae pryderon lles a godwyd gan randdeiliaid[1] yn cynnwys y gyfradd anafiadau a marwolaethau, ewthanasia, gorfridio a darpariaethau annigonol ar gyfer gofal ar ôl rasio ac ymddeol.

3.2. Yn ogystal â'r pryderon am les, roedd dadl foesol hefyd dros waharddiad, sy'n adlewyrchu gwerthoedd esblygol cymdeithas ynghylch trin anifeiliaid yn foesegol a'r ffaith bod goddefgarwch cymdeithas am ddiwydiannau yr ystyrir eu bod yn dibynnu ar ddioddefaint anifeiliaid ar gyfer adloniant yn pylu. O ganlyniad i hyn, ystyrid ei bod yn fwyfwy anodd cyfiawnhau gwneud milgwn yn agored i niwed drwy rasio.

3.3. Fel yr amlinellir yng Nghynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021 i 2026[2], ein gweledigaeth yw i bob anifail gael bywyd da, lle mae ei anghenion corfforol ac emosiynol yn cael eu diwallu a lle mae’n cael ei amddiffyn rhag niwed. Mae’r Ddeddf i wahardd rasio milgwn yng Nghymru yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, lle roedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cefnogi gwaharddiad graddol, ac mewn ymateb i ddeiseb a lofnodwyd gan dros 35,000 o bobl, gwnaethom gymryd camau pendant i ddiogelu lles milgwn rasio.

3.4. Mae'r symudiad hwn i waharddiad yn cyd-fynd â'n strategaeth ehangach i gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio sefydliadau a gweithgareddau lles anifeiliaid, gan sicrhau safonau cyson, cymesur a gorfodadwy ledled Cymru.

3.5. Mae’r Grŵp Gweithredu wedi helpu gyda'r trawsnewidiad, a byddant yn parhau i wneud hynny – gan ein galluogi i gydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod lles milgwn, buddiannau'r cymunedau yr effeithir arnynt ac uniondeb ein fframwaith lles anifeiliaid i gyd yn cael eu cynnal.

### Cyd-destun

3.6. Mae gan bobl farn gref am rasio milgwn ac mae llawer o ddiddordeb cyhoeddus a gwleidyddol yn y pwnc.

[1] OPUS at UTS: Identifying optimal greyhound track design for greyhound safety and welfare-Phase II-Progress Report-1 January 2016 to 31 December 2017 - Open Publications of UTS Scholars
[2] Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU

3.7. Mae poblogrwydd rasio milgwn wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sgil agweddau cymdeithasol yn newid a phryderon cynyddol am les anifeiliaid.

3.8. Bwrdd Milgwn Prydain Fawr[3] (GBGB) yw'r corff sy'n gyfrifol am lywodraethiant, rheoleiddio, a rheoli trwyddedau GBGB ar gyfer rasio milgwn yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn 2025, deallir bod 19 trac milgwn sydd wedi'u trwyddedu gan GBGB[4] ledled y DU. Mae un o'r traciau hyn yng Nghymru.

3.9. Stadiwm Milgwn Valley[5] yn Ystrad Mynach yw'r unig drac rasio milgwn sydd ar ôl yng Nghymru. Fe’i hagorwyd ym 1976, ac roedd yn gweithredu'n annibynnol tan fis Awst 2023, pan gafodd ei drwyddedu gan y GBGB, gyda'i ras gyntaf o dan drwydded GBGB yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd 2023.

3.10. Rydym ar ddeall bod 10 hyfforddwr milgwn wedi'u lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd sydd wedi'u trwyddedu gyda’r GBGB[6]. Mae'r hyfforddwyr hyn yn rasio eu milgwn yn Valley yn bennaf. Mae cyfanswm o 12 hyfforddwr, dau ohonynt wedi’u lleoli y tu allan i Gymru, yn gysylltiedig â'r stadiwm, gyda 250-300 o filgwn yn gymwys i rasio yn Valley.

**Galwadau am waharddiad**

3.11. Cyn i Valley gael trwydded GBGB ac oherwydd pryderon canfyddedig am safonau ar y trac oedd yn annibynnol ar y pryd, lansiodd Hope Rescue y prosiect Amazing Greys yn 2018[7]. Nod y fenter oedd gwella amodau drwy gynnig lleoedd mewn canolfannau achub i filgwn a ildiwyd a sicrhau bod y rhai a anafwyd wrth rasio yn cael gofal milfeddygol ar unwaith. Dywedwyd bod dros 200 o filgwn wedi'u cymryd i'w gofal, a dywedwyd bod 40 ohonynt wedi'u hanafu. Yn dilyn y cyhoeddiad am fwriad Valley i ddod yn drac GBGB trwyddedig, a allai arwain at gynnydd yn nifer y rasys, cyflwynodd Hope Rescue ddeiseb ym mis Medi 2021 yn galw am wahardd rasio milgwn yng Nghymru i Bwyllgor Deisebau'r Senedd[8].

3.12. Yn 2022, adolygodd Pwyllgor Deisebau'r Senedd y ddeiseb *Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru* a lofnodwyd gan 35,101 o bobl. Cafodd yr adroddiad a ddeilliodd o'r gwaith hwn, *Y Troad Terfynol*[9]?, ei drafod yng Nghyfarfod Llawn y Senedd ar 8 Mawrth 2023. Tynnodd sylw at bryderon lles a godwyd gan elusennau anifeiliaid a'r diwydiant, ac argymhellodd waharddiad graddol, ochr yn ochr â chamau ehangach i wella lles milgwn. Roedd yr adroddiad yn argymell bod angen ystyried lles ar hyd oes gyfan cŵn, cyn, yn ystod ac ar ôl rasio, ac roedd yn cynnwys argymhellion ychwanegol, fel trwyddedu, i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

[3] Greyhound Board of Great Britain | GBGB
[4] Publications | Greyhound Board of Great Britain
[5] Greyhounds | Valley Greyhounds | Wales
[6] GBGB Trainer list | Greyhound Board of Great Britain
[7] Greyhound racing to be banned in Wales | Hope Rescue
[8] Y Pwyllgor Deisebau
[9] Y Troad Terfynol?

3.13. Cafodd gwrthddeiseb[10] sy'n cefnogi parhad rasio milgwn yng Nghymru ei llofnodi gan 10,601 o bobl cyn iddi gau ar 22 Awst 2023. Roedd y gwrthddeiseb yn cwestiynu'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i greu'r ddeiseb *Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru* ac yn codi pryderon am effaith bosibl gwaharddiad ar Valley. Ni chafodd yr wrthddeiseb hon ei chyflwyno i'w thrafod yn y Senedd.

3.14. Amlinellodd adroddiad y Pwyllgor Deisebau, *Y Troad Terfynol?*, bum argymhelliad i Lywodraeth Cymru ynglŷn â rasio milgwn:

- **Argymhelliad 1** - Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i ystyried trwyddedu rasio milgwn fel rhan o'i Chynllun Lles Anifeiliaid. Byddem yn annog blaenoriaethu'r gwaith hwnnw.

- **Argymhelliad 2** - Mae mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor yn credu y dylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru gynnwys gwaharddiad graddol ar rasio milgwn yng Nghymru.

- **Argymhelliad 3** - Gall gyrfa rasio milgwn fod yn rhan fer o fywyd milgi. Ni ddylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella lles anifeiliaid gael eu cyfyngu i waharddiad ar rasio – fel strategaeth y diwydiant ei hun, dylai ystyried oes gyfan y cŵn, a’r amodau y cânt eu cadw ynddynt cyn ac ar ôl eu gyrfaoedd rasio. Byddai hyn yn cynnwys cyflwr cŵn sy'n teithio drwy Gymru ar eu ffordd i rasys.

- **Argymhelliad 4** - Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw newidiadau yn destun ymgynghoriad eang, a bod cyngor ar gael i’r rhai sy’n gweithio yn y diwydiant ar sut i gydymffurfio ag unrhyw reolau neu reoliadau newydd.

- **Argymhelliad 5** - Wrth ystyried gwaharddiad ar rasio milgwn, dylai Llywodraeth Cymru edrych hefyd ar chwaraeon eraill lle mae anifeiliaid yn cystadlu.

3.15. Cafodd dau gwestiwn penodol eu cynnwys yn yr *ymgynghoriad Trwyddedu Sefydliadau Lles, Gweithgareddau ac Arddangosfeydd Anifeiliaid*[11] a drafodir ym Mhennod 4.

3.16. Mae rasio milgwn wedi bod yn bwnc o ddiddordeb i Aelodau o'r Senedd gyda chefnogaeth drawsbleidiol iddo ers sawl blwyddyn. Cyn cyflwyno'r Bil, trafodwyd rasio milgwn[12] yn y Senedd ar 12 Chwefror 2025.

3.17. Mae data a gyhoeddwyd gan y GBGB[13] ym mis Mehefin 2025 yn darparu data hyd at a chan gynnwys 2024. Mae'n dangos, o'r 355,682 o rasus milgwn yn 2024, i lawr o 364,981 yn 2023, cofnodwyd 3,809 o anafiadau, i lawr o 4,238, a 123 o farwolaethau ar y trac rasio, i fyny o 109 yn 2023.

[10] Gwrthddeiseb
[11] Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid | LLYW.CYMRU
[12] Cyfarfod Llawn 12/02/2025 - Senedd Cymru
[13] Injury and Retirement Data | Greyhound Board of Great Britain

3.18. Fe wnaeth ffigurau 2024 ymgorffori Valley am y tro cyntaf, wedi iddo ddod o dan fantell y GBGB ddiwedd 2023. Ychydig o ddata sydd gennym gan Valley; er bod ei ddata bellach wedi'i gynnwys yn yr ystadegau diweddar ar gyfer Prydain gyfan, nid oes modd nodi ei ystadegau penodol ac nid oes adroddiad ar wahân ar ei gyfer.

3.19. Nid oes unrhyw arwydd bod cyfraddau anafiadau neu farwolaethau yn Valley yn wahanol iawn i'r duedd hon, gan ei fod yn cadw at yr un safonau GBGB â thraciau trwyddedig eraill.

3.20. Nodwyd bod trwyddedu Valley o dan y GBGB[14] wedi gwella goruchwyliaeth lles drwy safonau ac amodau'r GBGB, gan gynnwys goruchwyliaeth filfeddygol. Nodir hefyd fod Valley wedi buddsoddi i wella'r trac a'i gyfleusterau[15]. Bu cynnydd hefyd yn nifer y cyfarfodydd rasio a chontract cyfryngau masnachol[16] ers i Valley gael ei drwyddedu gan y GBGB. Mae Valley bellach yn cynnal tri chyfarfod rasio yr wythnos[17], gyda thua 11 i 12 ras ym mhob digwyddiad a hyd at chwe milgi ym mhob ras, i fyny o un cyfarfod yr wythnos yn ystod ei amser fel trac annibynnol.

### Y ddeddfwriaeth bresennol

3.21. Cyn y Ddeddf hon nid oedd unrhyw ddeddfwriaeth benodol ar gyfer lles milgwn yng Nghymru. Fodd bynnag, fel gyda phob anifail, mae eu lles yn dod o dan gwmpas y ddeddfwriaeth ehangach ganlynol:

- Mae **Deddf Lles Anifeiliaid 2006**[18] yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifail fethu â darparu ar gyfer anghenion lles ei anifeiliaid. O dan adran 9 o Ddeddf 2006, mae gan berson sy'n gyfrifol am anifail ddyletswydd i ddarparu ar gyfer anghenion yr anifail hwnnw, sy'n cynnwys: ei angen am amgylchedd addas; ei angen am ddeiet addas; ei angen i allu arddangos patrymau ymddygiad normal; ei angen i gael ei gartrefu gydag anifeiliaid eraill neu ar ei ben ei hun; a'i angen i gael ei amddiffyn rhag unrhyw boen, dioddefaint, anaf neu glefyd. Mae'n drosedd hefyd yn ôl Deddf 2006 beri poen neu ddioddefaint diangen i anifail.

- Mae **Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007**[19] (a wnaed o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981) yn ei gwneud yn drosedd cludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, anaf neu ddioddefaint diangen i'r anifail hwnnw.

- **Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015**[20] sy'n gosod dyletswydd ar bob ceidwad ci yng Nghymru i ficrosglodynnu ei gi.

- **Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014**[21] sy'n darparu ar gyfer trwyddedu personau sy'n bridio cŵn yng Nghymru.

---

[14] Greyhound Racing Regulator Welcomes Clear Show of Support for Licensing in Wales | Greyhound Board of Great Britain
[15] Open Letter: Licensed Greyhound Racing in Wales
[16] News - Valley Greyhounds
[17] RACING | Harlow Greyhounds
[18] Animal Welfare Act 2006
[19] Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007
[20] Rheoliadau Microsglodynnu Cwn (Cymru) 2015
[21] Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014

3.22. Yn Lloegr, nod Rheoliadau Lles Milgwn Rasio 2010[22] yw sicrhau safonau lles cyson, ond nid oes unrhyw reoliadau tebyg yng Nghymru. Cyflwynwyd Rheoliadau Lles Milgwn Rasio 2010 yn Lloegr i sicrhau safonau lles gofynnol ym mhob trac rasio milgwn nad ydynt wedi'u trwyddedu gan y GBGB. O dan y rheoliadau, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am drwyddedu'r traciau annibynnol hyn a gorfodi safonau sy'n gysylltiedig â gofal milfeddygol, llety cŵn, microsglodynnu a chadw cofnodion. Mae’r GBGB yn cael ei gydnabod o fewn y rheoliadau fel corff rheoleiddio dibynadwy, felly mae traciau o dan ei awdurdodaeth wedi'u heithrio rhag cael eu trwyddedu ar wahân o dan y rheolau hyn. Nod y rheoliadau yw sicrhau bod pob trac rasio milgwn yn Lloegr, p'un a yw'n cael ei drwyddedu gan y GBGB ai peidio, yn destun goruchwyliaeth lles briodol.

3.23. Daeth Adolygiad Ôl-weithredu Defra o Reoliadau Lles Milgwn Rasio 2010[23] i'r casgliad bod y rheoliadau'n effeithiol i raddau helaeth wrth gyflawni eu nodau craidd, yn enwedig drwy godi safonau lles ar draciau rasio milgwn annibynnol a gwella'r gallu i olrhain milgwn yn ystod eu gyrfaoedd rasio. Cadarnhaodd yr adolygiad fod y rheoliadau wedi llwyddo i ddod â thraciau annibynnol i fyny i safon ofynnol sy'n debyg i'r rhai a reoleiddir gan y GBGB, sy'n cael ei gydnabod yn y rheoliadau fel corff dibynadwy, felly nid oes angen trwydded awdurdod lleol os yw'r trac wedi'i drwyddedu gan y GBGB. Nododd yr adolygiad gyfyngiadau hefyd, gan nodi mai dim ond i les ar y trac yr oedd y rheoliadau'n berthnasol ac nad oeddent yn ymestyn i ofal ar safle hyfforddwyr, gofal wrth fridio, gofal wrth gludo na gofal ar ôl rasio. Cododd rhanddeiliaid bryderon am y diffyg tryloywder mewn data anafiadau ac ymddeol ac effaith gyfyngedig y rheoliadau ar draciau’r GBGB, lle roedd safonau tebyg eisoes ar waith.

3.24. Mae'r Prohibition of Greyhound Racing (Scotland) Bill[24] yn Fil Aelod a gyflwynwyd gan Mark Ruskell MSP, Plaid Werdd yr Alban, gyda'r nod o wahardd rasio milgwn yn yr Alban. Mae'r Bil, a gafodd ei basio gan Senedd yr Alban ym mis Mawrth 2026, yn ceisio ei gwneud yn drosedd caniatáu i filgwn rasio ar draciau rasio, gan nodi pryderon difrifol o safbwynt lles anifeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys cyfraddau anafiadau a marwolaethau uchel, amodau byw gwael ac ewthanasia milgwn yr ystyrir nad ydynt yn ddigon da i rasio.

3.25. Cyflwynwyd y cynnig drafft ar 7 Chwefror 2024, a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 1 Mai 2024. Cafwyd 790 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda chefnogaeth gref i'r gwaharddiad ymhlith y cyhoedd. Cyflwynwyd y cynnig terfynol ar 26 Mehefin 2024, a chyflwynwyd y Greyhound Racing (Offences) (Scotland) Bill yn ffurfiol i Senedd yr Alban ym mis Ebrill 2025. Cafodd y Bil ei basio ym mis Mawrth 2026, a fydd yn golygu mai Lloegr yw’r unig wlad yn y DU nad oes ganddi waharddiad ar rasio milgwn.

---

[22] The Welfare of Racing Greyhounds Regulations 2010
[23] Welfare of racing greyhounds: post implementation review of the 2010 Welfare of Racing Greyhounds Regulations - GOV.UK
[24] Proposed Prohibition of Greyhound Racing Scotland Bill | Scottish Parliament Website

## Y darlun cenedlaethol a rhyngwladol

3.26. Comisiynodd Llywodraeth yr Alban adroddiad[25] a gyhoeddwyd ar 9 Mawrth 2023 ar les milgwn a ddefnyddir ar gyfer rasio mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y cyhoedd a sefydliadau lles anifeiliaid. Yn benodol, gofynnodd Rural Affairs, Islands and Natural Environment[26] (RAINE) Committee Senedd yr Alban i'r Scottish Animal Welfare Commission (SAWC)[27] ymchwilio i les milgwn rasio.

3.27. Cafodd y cais hwn ei sbarduno'n rhannol gan ddeiseb gyhoeddus a lofnodwyd gan 29,686 o bobl yn galw am roi terfyn ar rasio milgwn yn yr Alban[28]. Nod yr adroddiad oedd mynd i'r afael â phryderon drwy werthuso amodau lles milgwn gydol eu hoes, o'u geni i'w hymddeoliad, a darparu argymhellion ar gyfer gwella'r ffordd y maent yn cael eu trin.

3.28. Roedd adroddiad SAWC 2023 yn cynnig asesiad moesegol a gwyddonol trylwyr o les milgwn a ddefnyddir ar gyfer rasio yn yr Alban[29]. Daethant i'r casgliad y byddai lles milgwn yn debygol o fod yn well pe na baent yn cael eu defnyddio i rasio. Roedd yr adroddiad yn nodi risgiau difrifol, fel anafiadau ar draciau siâp hirgrwn sy’n nodweddiadol yn y DU, ac yn tynnu sylw at amharodrwydd y diwydiant i weithredu'r diwygiadau sylweddol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion hyn. Er iddo gael ei gomisiynu gan Lywodraeth yr Alban, mae'r adroddiad yn rhoi darlun gwerthfawr i Gymru o ffactorau ehangach wrth ystyried sefyllfa milgwn sy'n cael eu defnyddio i rasio.

3.29. Mae mwy a mwy o sylw'n cael ei roi ar y diwydiant rasio milgwn ym mhob rhan o'r byd, gyda Seland Newydd a sawl un o daleithiau Awstralia yn adolygu'r arfer neu'n ei ddileu yn raddol oherwydd pryderon lles parhaus. Mae tystiolaeth ryngwladol[30] yn tynnu sylw yn gyson at faterion penodol i’r brîd, gan gynnwys cyfraddau anafiadau uchel, canlyniadau gwael ar ôl rasio a risgiau lles systemig sy'n gysylltiedig â natur fasnachol rasio milgwn.

3.30. Ym mis Ebrill 2021, comisiynodd Llywodraeth Seland Newydd adolygiad o les a diogelwch anifeiliaid yn y diwydiant rasio milgwn gan Syr Bruce Robertson (adolygiad Robertson)[31]. Ar 10 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Gweinidog Rasio Seland Newydd[32] gynlluniau'r Llywodraeth i gau'r diwydiant rasio milgwn yn Seland Newydd, gyda'r bwriad o ddirwyn y rasio i ben ar 31 Gorffennaf 2026. Cyhoeddwyd hefyd y bwriad i ffurfio Pwyllgor Cynghori Gweinidogol i oruchwylio'r cau a chylch gorchwyl y pwyllgor hwnnw.

---

[25] Welfare of greyhounds used for racing: report - The Scottish Government
[26] Session 6 Rural Affairs and Islands Committee | Scottish Parliament Website
[27] Scottish Animal Welfare Commission - gov.scot
[28] End greyhound racing In Scotland - Petitions
[29] Ethical Analysis and Critical Issues - Welfare of greyhounds used for racing: report - gov.scot
[30] Racing Policy - dia.govt.nz
[31] Review into Greyhound Racing in New Zealand 2021_0.pdf
[32] Government announces future of greyhound racing in New Zealand | Beehive.govt.nz

3.31. Yn 2024, cyflwynodd llywodraeth Seland Newydd y Racing Industry (Unlawful Destruction of Specified Greyhounds) Amendment Act 2024[33], sy'n diwygio'r Racing Industry Act 2020[34], i wahardd difa (drwy unrhyw ddull) filgwn sydd wedi'u cofrestru gyda'r New Zealand Greyhound Racing Association Incorporated (GRNZ), oni bai bod y difa'n cael ei wneud gan filfeddyg am reswm a bennir ym mholisi ewthanasia milgwn GRNZ neu gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod unrhyw ddeddfwriaeth arall. Nod y Bil yw atal ewthanasia diangen neu anghyfreithlon milgwn rasio cyn y gwaharddiad disgwyliedig yn Seland Newydd.

3.32. The Animal Welfare (Prohibition of Greyhound and Other Sighthound Racing) Amendment Bill (Draft for Consultation) [35]. Mae'r Bil Aelod drafft hwn yn cynnig gwaharddiad llwyr ar rasio milgwn a llygatgwn yn Seland Newydd drwy ddiwygio'r Animal Welfare Act 1999[36]. Mae'n cyflwyno adran newydd (31A) a fyddai'n ei gwneud yn drosedd i fod yn berchen ar filgwn neu lygatgwn, eu hyfforddi, eu bridio, eu rasio neu hyrwyddo rasio'r cŵn hyn. Mae'r Bil wedi'i seilio ar bryderon am anafiadau a marwolaethau parhaus yn y diwydiant ac mae'n dadlau bod rasio o'r fath yn anghyson â chydnabyddiaeth yr ymrwymiadau yng nghyfraith Seland Newydd i allu anifeiliaid i ymdeimlo a'u lles. Adeg y cyhoeddiad hwn, mae'r bil yn y cam ymgynghori ac nid yw wedi'i gyflwyno eto.

3.33. Yn Awstralia, mae rasio milgwn yn dal i fod yn gyfreithlon ym mhob talaith a thiriogaeth ac eithrio Tiriogaeth Prifddinas Awstralia (ACT), a waharddodd rasio milgwn yn 2018 oherwydd pryderon difrifol am les anifeiliaid. Yn nhalaith De Cymru Newydd (NSW), ar ôl cwblhau'r Special Commission of Inquiry into the Greyhound Racing Industry in NSW ym mis Mehefin 2016[37], cyhoeddodd Mike Baird, Pennaeth Llywodraeth Weithredol y dalaith, ar 7 Gorffennaf 2016 mai NSW fydd y dalaith gyntaf yn Awstralia i ddirwyn rasio milgwn i ben. Cafodd y penderfyniad hwn ei wrthdroi ychydig fisoedd yn ddiweddarach.

3.34. Yn 2017, cyflwynodd Prifysgol Technoleg Sydney (UTS) adroddiad i Greyhound Racing New South Wales (GRNSW) o'r enw [38]*Identifying Optimum Greyhound Track Design for Greyhound Safety and Welfare.* Mae'r adroddiad yn archwilio sut mae dyluniad trac yn effeithio ar ddiogelwch milgwn. Canfu bod troeon tynn ac arwynebau anwastad yn cynyddu'r risg o anafiadau a defnyddiodd astudiaethau biomecanyddol ac efelychiadau cyfrifiadurol i brofi cynlluniau trac mwy diogel. Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, argymhellodd UTS welliannau fel creu llethrau mwy serth ar y troeon, trawsnewidiadau llyfnach a deunyddiau wedi'u huwchraddio i wella diogelwch. Helpodd y mewnwelediadau hyn i lywio Track Safety & Welfare Strategy 2024 GRNSW[39], sy'n cynnwys buddsoddiad o $18.3 miliwn mewn traciau mwy diogel a chau'r rhai nad ydynt yn bodloni'r safonau newydd.

[33] Racing Industry (Unlawful Destruction of Specified Greyhounds) Amendment Bill 109-1 (2024), Government Bill – New Zealand Legislation
[34] Racing Industry Act 2020 No 28 (as at 28 June 2025), Public Act – New Zealand Legislation
[35] animal-welfare-prohibition-of-greyhound-and-other-sighthound-racing-amendment-bill.pdf
[36] Animal Welfare Act 1999 No 142 (as at 05 April 2025), Public Act Contents – New Zealand Legislation
[37] Report of the Special Commission of Inquiry into the Greyhound Racing Industry in New South Wales
[38] OPUS at UTS: Identifying optimal greyhound track design for greyhound safety and welfare-Phase II-Progress Report-1 January 2016 to 31 December 2017 - Open Publications of UTS Scholars
[39] GRNSW - GRNSW Announce New Track Safety & Welfare Strategy

3.35. Mae tystiolaeth ryngwladol ynghylch rasio milgwn yn ein helpu i ddeall yn well ei oblygiadau lles ehangach. Mae'r corff hwn o ymchwil, sy'n deillio o wledydd sydd â diwydiannau rasio milgwn sefydledig, yn rhoi darlun o faterion megis diogelwch traciau, cyfraddau anafiadau, a chanlyniadau ar ôl rasio.

**Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)**

3.36. Mae Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn ei gwneud yn drosedd i berson sy'n weithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru ei ddefnyddio, neu ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio, ar gyfer rasio milgwn. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd hefyd i berson fod yn gysylltiedig â threfnu ras milgwn sy'n digwydd, neu y bwriedir iddi ddigwydd, yng Nghymru. Diffinnir rasio milgwn fel cymell milgwn i redeg o amgylch trac ar ôl llith sydd wedi ei actifadu’n fecanyddol ac mae hyn yn cynnwys amseru neu hyfforddi milgi wrth iddo redeg o amgylch trac.

**Gorfodi Ddeddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)**

3.37. Mae adran 1 o'r Ddeddf yn creu dwy drosedd . Mae’n drosedd i weithredwr ddefnyddio stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru, neu dan wybod ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio, i rasio milgwn. Mae person hefyd yn cyflawni trosedd os yw'n ymwneud â threfnu ras filgwn sy'n digwydd yng Nghymru neu y bwriedir iddi gael ei chynnal yng Nghymru.

3.38. Mae Atodlen 2 o'r Ddeddf yn creu dwy drosedd. Bydd person yn cyflawni trosedd os nad yw'n cydymffurfio â gofyniad am gymorth a wneir yn rhesymol o dan baragraff 9(c) o Atodlen 2 neu os yw'n rhrwystro rhywun arall yn fwriadol rhag arfer swyddogaeth o dan Atodlen 2.

3.39. Mae arolygwyr yn bersonau a benodir gan gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu Weinidogion Cymru. Bydd y Ddeddf, pe bai'n dod yn gyfraith, yn cael ei orfodi gan Awdurdodau Lleol.

3.40. Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi arolygwyr a'r pwerau gorfodi, gan gynnwys pwerau mynediad a chwilio. Mae terfynau'r pwerau hyn yn cael eu manylu yn yr Atodlen a'u crynhoi isod.

3.41. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i arolygwyr fynd i mewn i eiddo, ond rhaid bod sail resymol dros amau bod trosedd yn cael ei chyflawni, wedi'i chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni, neu y gellir dod o hyd i dystiolaeth o drosedd o'r fath. Ni chaiff arolygwyr fynd i mewn i eiddo a ddefnyddir fel annedd heb gydsyniad y meddiannydd neu'r person sy'n gyfrifol am yr eiddo neu heb warant sy'n eu hawdurdodi i wneud hynny, a roddwyd gan ustus heddwch. Mae'r Ddeddf wedi'i drafftio gan roi sylw priodol i hawliau dynol, ac mae'r Atodlen yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir rhoi gwarant a chyfyngiadau gwarant.

3.42. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i arolygwyr ymafael yn unrhyw eitem, ac eithrio ci, a ganfyddir yn yr eiddo ac y mae’r arolygydd yn credu'n rhesymol ei bod yn dystiolaeth bod trosedd wedi'i chyflawni o dan adran 1.

3.43. Caiff arolygwyr ddefnyddio grym rhesymol lle bo angen i arfer pŵer mynediad a gallant fynd ag unrhyw bersonau sydd eu hangen ac unrhyw offer a deunydd sy'n angenrheidiol gyda nhw i'w cynorthwyo yn eu dyletswyddau. Gallai'r rhai sy'n cynorthwyo gynnwys arbenigwyr, er enghraifft, milfeddyg.

3.44. Mae person sy'n euog o beidio â chydymffurfio â gofyniad a wnaed yn rhesymol gan arolygydd neu o rwystro arolygydd yn fwriadol pan fydd yr arolygydd yn cyflawni ei ddyletswyddau yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

3.45. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) (Rhan 2) yn cynnwys asesiad o effeithiau cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon.

**Y Grŵp Gweithredu**

3.46. Mae angen i ni sicrhau bod y cŵn, eu perchnogion, a'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant yn gallu symud i ffwrdd o rasio mewn ffordd gynlluniedig a rhesymol. Mae hyn yn cynnwys diogelu lles y cŵn sydd ar hyn o bryd yn y diwydiant, tra'n sicrhau bod yr effaith ar y gymuned a'r economi leol cyn lleied a phosibl.

3.47. Cyhoeddwyd Grŵp Gweithredu ar 11 Gorffennaf 2025[40], i lywio'r trawsnewidiad tuag at waharddiad arfaethedig. Bydd yn darparu cyngor ac arweiniad ymarferol i Weinidogion Cymru, wrth i swyddogion oruchwylio'r trawsnewidiad oddi wrth rasio milgwn. Bydd lles milgwn yn flaenoriaeth, ochr yn ochr â'r effeithiau ar y gymuned a'r economi leol.

3.48. Cylch gwaith y Grŵp Gweithredu yw:

- Diogelu lles y milgwn rasio hynny sydd yn y diwydiant ar hyn o bryd ac wrth weithredu'r gwaharddiad
- Diogelu'r sector achub rhag y pwysau cynyddol a allai godi yn sgil y gwaharddiad
- Nodi'r arferion gorau ar gyfer y trawsnewidiad, drwy ystyried sut i weithredu cynigion a gwaharddiadau tebyg mewn gwledydd eraill.
- Cynnig atebion ymarferol posibl i liniaru effeithiau cymdeithasol ac economaidd canlyniadau'r gwaharddiad ar rasio milgwn.
- Cynorthwyo a chefnogi perchnogion a gweithwyr y diwydiant i drawsnewid oddi wrth rasio milgwn

3.49. Mae'r Grŵp Gweithredu yn cynnwys unigolion sy'n cynrychioli sbectrwm eang sy'n cynnwys y diwydiant, iechyd a lles anifeiliaid a sectorau cymdeithasol a chymunedol.

[40] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-grwp-gweithredu-i-lywior-trawsnewidiad-tuag-waharddiad-ar-rasio-milgwn-yng

## 4. Ymgynghori

4.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar y Bil drafft ei hun cyn ei gyflwyno. Fodd bynnag, mae'r polisi sy’n sail iddo wedi bod yn destun ymgynghoriad, fel yr amlinellir isod.

### Y cefndir

4.2. Lluniwyd Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021-2026 (AWPW)[41] yn dilyn cyhoeddi'r Rhaglen Lywodraethu yn 2021. Fel rhan o AWPW, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygiad o'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i weithgareddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, datblygu rhestr flaenoriaeth o reoliadau trwyddedu newydd arfaethedig a lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar y blaenoriaethau hyn yn 2023.

4.3. Mae Lles Anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a’n huchelgais yw bod pob anifail yng Nghymru yn byw bywyd da. Mae AWPW 2021-2026 yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r ymrwymiadau hyn.

4.4. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar alwad gynharach am dystiolaeth, a gynhaliwyd gydag Awdurdodau Lleol Cymru, ein Prosiect Gorfodi Awdurdodau Lleol a’n Rhwydweithiau Lles Anifeiliaid. Daeth yr alwad hon am dystiolaeth o hyd i fylchau mewn deddfwriaeth bresennol a lluniwyd rhestr o feysydd â blaenoriaeth y dylid ymgynghori ymhellach yn eu cylch. Gyda’i gilydd, roedd y rhain yn ffurfio cam cyntaf y gwaith o ddatblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, sef un o ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu.

4.5. Pennwyd pedair thema allweddol ar gyfer yr ymgynghoriad – sefydliadau lles anifeiliaid, gweithgareddau anifeiliaid, arddangosfeydd anifeiliaid a chŵn rasio. Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos ar gynigion i drwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid[42] ar 08 Rhagfyr 2023, a daeth i ben ar 01 Mawrth 2024.

4.6. Gofynnwyd i’r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ystyried wyth cwestiwn. Yn eu trefn, roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud â sefydliadau lles anifeiliaid (C1), gweithgareddau anifeiliaid (C2), arddangosfeydd anifeiliaid (C3), trwyddedu perchnogion/ceidwaid/hyfforddwyr cŵn rasio (C4), barn a thystiolaeth o blaid neu yn erbyn gwaharddiad graddol ar rasio milgwn (C5), a’r effaith ar y Gymraeg (C6 a C7). Roedd cwestiwn 8 yn gwestiwn testun rhydd a oedd yn cynnig cyfle i’r ymatebwyr ymhelaethu ar gwestiynau blaenorol neu rannu safbwyntiau eraill.

4.7. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar gynigion i gyflwyno rheoliadau trwyddedu i weithgareddau, sefydliadau ac arddangosfeydd anifeiliaid. Roedd y gweithgareddau a oedd o fewn cwmpas yr ymgynghoriad yn amrywio o ganolfannau achub, llochesi a chanolfannau adsefydlu i wasanaethau anifeiliaid anwes (yn cynnwys twtio, mynd â nhw am dro, gofal dydd a lletya) i wasanaethau ceffylau, sesiynau cwrdd rhwng pobl ac anifeiliaid (megis therapi

[41] cynllun lles anifeiliaid cymrupdf
[42] Trwyddedu gweithgareddau, arddangosfeydd a sefydliadau lles anifeiliaid | LLYW.CYMRU

anifeiliaid anwes), arddangosfeydd anifeiliaid a bod yn berchen ar gŵn rasio a'u hyfforddi a'u cadw.

4.8. Fel yr amlinellir ym Mhennod 3, yn 2022 adolygodd Pwyllgor Deisebau'r Senedd[43] y ddeiseb *Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru* a lofnodwyd gan 35,101 o bobl. Cafodd yr adroddiad a ddeilliodd o'r adolygiad hwn, *Y Troad Terfynol?*[44], ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mawrth 2023[45]. Tynnodd sylw at bryderon lles a godwyd gan elusennau anifeiliaid a'r diwydiant, ac argymhellodd waharddiad graddol, ochr yn ochr â chamau ehangach i wella lles milgwn. Roedd yr adroddiad yn argymell edrych ar les gydol oes gyfan cŵn, cyn, yn ystod ac ar ôl rasio, ac yn cynnwys argymhellion ychwanegol, fel trwyddedu, i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

4.9. I gydnabod diddordeb mawr elusennau lles anifeiliaid sy'n ymgyrchu dros les milgwn rasio ac yn dilyn argymhellion adroddiad y Pwyllgor Deisebau, *Y Troad Terfynol?*, cafodd dau gwestiwn penodol eu cynnwys yn yr ymgynghoriad *Trwyddedu Sefydliadau Lles, Gweithgareddau ac Arddangosfeydd Anifeiliaid*.

4.10. Roedd y cwestiynau hyn yn ymdrin yn benodol â'r posibilrwydd o drwyddedu perchnogion, ceidwaid, bridwyr a hyfforddwyr milgwn, yn ogystal ag ystyried gwaharddiad graddol ar rasio milgwn. Cafwyd 1180 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda 1032 yn ymwneud â thrwyddedu perchnogion, ceidwaid a hyfforddwyr milgwn.

4.11. Roedd Cwestiwn 4 yn gofyn a ddylid trwyddedu perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr cŵn rasio (yn cynnwys milgwn). Cafwyd 1032 o ymatebion i Ggwestiwn 4. Roedd 55.5% o’r ymatebwyr o blaid trwyddedu, roedd 40.6% o’r ymatebwyr yn erbyn trwyddedu ac roedd 3.9% o'r ymatebwyr yn ansicr.

4.12. Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr o blaid trwyddedu perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr cŵn rasio (yn cynnwys milgwn) a dywedodd mwyafrif sylweddol o’r rhai nad oeddent o blaid nad oeddent yn gefnogol i'r diwydiant. Drwy’r holl ymatebion, mynegwyd cefnogaeth benodol i’r syniad y dylid trwyddedu perchnogion a/neu geidwaid a hyfforddwyr a oedd yn gysylltiedig â rasio milgwn masnachol. Ymhlith yr ymatebion hyn, roedd rhai o’r farn bod trefniant rheoleiddio o dan arweiniad y diwydiant yn ddigonol, tra dadleuodd eraill na allai unrhyw ffurf ar drwyddedu ddiogelu cŵn rasio’n ddigonol a bod angen diddymu’r arfer o rasio milgwn.

4.13. Y ddadl gryfaf ymhlith y grŵp hwn oedd bod yn rhaid gwneud cymaint â phosibl i ddiogelu lles milgwn rasio yn awr, gyda’r bwriad o ddiddymu’r arfer yn y dyfodol.

4.14. Dywedodd yr ymatebwyr y byddai cyfundrefn drwyddedu gadarn yn rhywbeth i’w groesawu er mwyn sicrhau safonau lles uchel ar gyfer cŵn rasio drwy gydol eu hoes. Nid oedd nifer o’r ymatebwyr yn y grŵp hwn yn gwybod nad oedd

[43] Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru - Deisebau
[44] Y Troad Terfynol?
[45] Agenda Y Cyfarfod Llawn ar Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023, 13.30

trefniadau trwyddedu statudol ar waith a mynegwyd pryder ynglŷn â’r sefyllfa hon.

4.15. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo nad oes digon o reoleiddio ar gyfer rasio milgwn yng Nghymru – rhywbeth a oedd, ym marn llawer o’r ymatebwyr, yn cyfrannu at wneud y cyhoedd yn fwy beirniadol o’r diwydiant. Mynegodd nifer o'r ymatebwyr awydd i ddeall yn llawn oblygiadau gwaharddiad posibl, gyda llawer yn ffafrio rhoi terfyn ar yr arfer yn raddol yn hytrach na gwaharddiad ar unwaith. Roedd barn ar y mater yn amrywio, ond codwyd sawl pryder lles allweddol yn gyson mewn perthynas â rasio milgwn masnachol, gan gynnwys:

- y cyfraddau anafiadau ac ewthanasia yn ystod rasys
- gorfridio a cholledion
- lletyau cŵn annigonol
- hwsmonaeth a chludo
- y broses ymddeol,
- diffyg rheoliadau statudol cyfredol ar gyfer y diwydiant.

4.16. Yn dilyn C4 uchod ar drwyddedu perchnogion, ceidwaid neu hyfforddwyr cŵn rasio, gofynnodd C5 am dystiolaeth i gyfiawnhau neu negyddu ystyried gwaharddiad graddol yn y dyfodol a gofynnodd i'r ymatebwyr ddewis yr hyn a oedd yn adlewyrchu'n briodol eu barn ar rasio milgwn. Cafwyd 1031 o ymatebion i C5. Roedd 64.7% o’r ymatebwyr o blaid gwaharddiad graddol, roedd 25.1% yn erbyn gwaharddiad graddol ac roedd 10.2% yn ansicr.

4.17. Roedd y mwyafrif o’r ymatebion i'r ymgynghoriad (64.7%) yn mynegi barn anffafriol tuag at rasio milgwn ac yn cefnogi gwaharddiad. Roedd hyn yn adlewyrchu teimlad cryf ymhlith yr ymatebwyr, gyda 25.1% yn erbyn gwaharddiad graddol, er bod 1.5% o'r rhain yn erbyn gwaharddiad graddol am eu bod yn cefnogi gwaharddiad ar unwaith. O'r grŵp sy'n cefnogi'r gwaharddiad, mynegwyd pryder cryf am les milgwn ar y trac a thu hwnt, ecsbloetio milgwn a'u canlyniadau gwael ar ôl eu gyrfa rasio. Nodwyd dadleuon moesol a moesegol ynghylch defnyddio cŵn ar gyfer adloniant a'r newid yn agweddau cymdeithas[46].

4.18. Ymhlith y rhai a oedd yn gwrthwynebu gwaharddiad graddol, roedd 25.1% yn erbyn a 10.2% yn ansicr. Dywedodd yr ymatebwyr y byddai cyflwyno gwaharddiad graddol ar rasio milgwn yn cael effaith economaidd a diwylliannol. Cyfeiriodd y sylwadau am yr effaith bosibl ar fywoliaeth, awgrymwyd y gallai gwaharddiad gael gwared ar weithgaredd sy’n bwysig yn ddiwylliannol, a soniwyd am y rhagfarn sy’n perthyn i ddemograffeg benodol a’r posibilrwydd y byddai bridiau rasio’n diflannu. Awgrymodd llawer o bobl yn y grŵp hwn y gallai trefniadau rheoleiddio a thrwyddedu pellach fynd i’r afael â phryderon lles canfyddedig, heb orfod cyflwyno gwaharddiad, gyda llawer yn tynnu sylw at drefniadau rheoleiddio presennol y GBGB.

4.19. Yn gyffredinol, mynegodd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi gwaharddiad bryderon mawr ynglŷn â lles milgwn, ynghyd â theimlad bod dod â rasio milgwn

[46] Trwyddedu gweithgareddau, arddangosfeydd a sefydliadau lles anifeiliaid | LLYW.CYMRU

i ben yn fater o frys. Hefyd, roeddent o’r farn bod y diwydiant yn anfoesol ac nad oedd ganddo sêl bendith cymdeithas i weithredu mwyach.

4.20. Cyhoeddwyd y Crynodeb o'r ymatebion[47] i'r ymgynghoriad *Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid* ym mis Rhagfyr 2024. Ym mis Chwefror 2025, dywedodd Huw Irranca-Davies, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, mai nawr yw'r amser i fynd ati i wahardd rasio milgwn[48] yng Nghymru ac, ers hynny, mae wedi nodi ymateb Llywodraeth Cymru[49] i'r ymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid, drwy ddatganiad ysgrifenedig[50]:

## Parhau i Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

4.21. Fel yr amlinellir ym Mhennod 3, bydd y Grŵp Gweithredu[51] yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad ymarferol i swyddogion a Gweinidogion Cymru fel rhan o'r trawsnewidiad i ffwrdd o rasio milgwn. Mae aelodau'r Grŵp Gweithredu yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Valley a'r cwmni cyfryngau SIS Ltd.

4.22. Mae Bwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB) hefyd yn un o brif randdeiliaid y diwydiant. Er iddynt wrthod sedd ar y Grŵp Gweithredu, byddwn yn parhau i ymgysylltu â nhw trwy’r grŵp i sicrhau eu bod yn cael gwybod am y newid at waharddiad a’r adolygiad ar ôl deddfu, ac yn cael cyfrannu atynt.

4.23. Trwy'r Grŵp Gweithredu bu trafodaethau, a bydd trafodaethau’n parhau, â'r rhai y bydd y gwaharddiad yn effeithio arnynt, gan gynnwys hyfforddwyr a pherchnogion milgwn rasio, i ddeall effeithiau posibl y Ddeddf yn well. Yn ogystal, mae swyddogion wedi trafod â rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod pawb yn deall y trawsnewidiad, a byddant yn parhau i wneud hynny.

4.24. Wrth i'r trawsnewidiad fynd rhagddo, bydd y Grŵp Gweithredu yn allweddol wrth nodi atebion ymarferol i faterion cymhleth, gan gynghori a helpu i reoli effeithiau. Bydd eu hymgysylltiad parhaus yn sicrhau bod y broses yn agored, yn deg ac yn seiliedig ar dystiolaeth glir ac arferion da.

4.25. Caiff adolygiad ar ôl deddfu ei gynnal o fewn 3 blynedd wedi i ddarpariaethau’r Bil ddod i rym (adran 10) a bydd yn elwa ar gyfraniad a barn rhanddeiliaid. Gallai olygu ailgynnull aelodau’r Grŵp Gweithredu, neu gysylltu â nhw, ar yr adeg briodol, i helpu gyda chynnal yr adolygiad

---

[47] Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid | LLYW.CYMRU
[48] Cymru'n symud i wahardd rasio milgwn | LLYW.CYMRU
[49] Ymateb Llywodraeth Cymru
[50] Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar 'Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid, gan gynnwys rasio milgwn’
[51] Grŵp Gweithredu'r Gwaharddiad ar Rasio Milgwn | LLYW.CYMRU

## 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno:

(i) y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo;
(ii) ym mha ffurf y dylid arfer y pŵer;
(iii) priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
(iv) y weithdrefn a ddefnyddir; hynny yw, “cadarnhaol”, “negyddol”, neu “dim gweithdrefn”, ynghyd â’r rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

Noder: dim ond ar gyfer helpu pobl i ddeall Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) 2026 y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 5(2) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Darpariaeth mewn perthynas â chychwyn adrannau penodedig yn y Ddeddf. Mae hyn yn addas ar gyfer cychwyn drwy Orchymyn gan fod angen amseru'r dod i rym er mwyn sicrhau bod trefniadau cyflawni ar waith. | Bydd yr OS yn cael ei osod gerbron y Senedd yn unol ag adran 37F o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. | Mae'r gorchymyn hwn yn ymwneud â chychwyn ac mae'n dechnegol ei natur. |

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Ddeddf, ac mae'n dilyn isod.

6.2. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf sy'n codi ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Tabl A

6.3. Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi crynodeb o gostau a manteision y Ddeddf yn ei chyfanrwydd. Mae'r tabl wedi'i gynllunio i gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen o dan Reol Sefydlog 26.6(viii) a (ix).

| ***Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) 2026*** | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn 3 - Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru** | | |
| **Cam:** Cyflwyniad | **Cyfnod Arfarnu:** 2026-27- 2031-32 | **Blwyddyn sylfaen y pris: 2024 - 25** |
| **Cyfanswm y Gost<br>Cyfanswm: £76,800<br>Gwerth Presennol: £71,500** | **Total Benefits<br>Cyfanswm: £0<br>Gwerth Presennol: £0** | **Gwerth Presennol Net (GPN):<br>£-71,500** |

## Cost Weinyddol

### Costau:

Un stadiwm rasio milgwn sy'n weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd, sef Valley Greyhounds Ltd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn talu cost weithredu fach i ddatblygu canllawiau dwyieithog ar gyfer Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru), gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid. Amcangyfrifir mai £6,600 fydd y gost hon. Bydd costau cyfathrebu ychwanegol o oddeutu £1,400 yn codi hefyd. Disgwylir costau rhoi'r gwaharddiad ar waith rhwng 2027-30. Mae'n annhebyg y bydd unrhyw arbedion sylweddol.

Y bwriad yw mai'r awdurdod lleol fydd yn gorfodi'r ddeddfwriaeth, gan ddefnyddio ei swyddogion trwyddedu presennol i gymryd camau gorfodi yn ôl yr angen. Er yr amcangyfrifir y bydd un gweithrediad i orfodi'r Ddeddf yn costio rhwng £5,000 a £10,000, nid ydym yn rhagweld cost orfodi ychwanegol gan nad ydym yn rhagweld unrhyw dorcyfraith.  Felly, ein hamcangyfrif gorau o'r gost hon yw £sero.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau sy'n gysylltiedig â'r Grŵp Gweithredu, gan gynnwys tâl i'r Cadeirydd a benodir a threuliau teithio a chynhaliaeth aelodau'r grŵp. Bydd y costau hyn oddeutu £3,300 y flwyddyn.  Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu hefyd ysgrifenyddiaeth y grŵp ac amcangyfrifir y bydd hynny'n costio £12,000 y flwyddyn (mae hyn yn gost gyfle).  Yn ogystal, mae cost gyfle yn gysylltiedig â'r amser y mae aelodau yn ei dreulio yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd, amcangyfrifir bod hyn yn £7,700 y flwyddyn.  Mae'r costau hyn yn seiliedig ar amcangyfrif o chwe chyfarfod y flwyddyn dros y cyfnod gweithredu.  Bydd y dyddiad dod i rym yn penderfynu am ba hyd y bydd y costau hyn yn para ac am sawl blwyddyn. Gan fod disgwyl i'r gwaharddiad ddod i rym rhwng Ebrill 2027 ac Ebrill 2030, rhagwelir y daw rôl gychwynnol y Grwp Gweithredu i ben bryd hynny, er y gellid galw arno wedi hynny i helpu gyda'r adolygiad ar ôl deddfu. At bwrpas yr asesiad hwn, rydym wedi ystyried costau hyd at Ebrill 2030.

Rhagwelir na fydd unrhyw effaith arwyddocaol ar Heddluoedd na'r system gyfiawnder. Amcangyfrif o'r gost yw £sero.

| **Trosiannol: £99,800** | **Cylchol: £0** | **Cyfanswm: £99,800** | **GP: £91,700** |
|---|---|---|---|

### Arbedion cost:

Disgwylir y bydd costau gweinyddol yn cael eu harbed drwy ostyngiad mewn gohebiaeth gan unigolion a rhanddeiliaid yn galw am wahardd rasio milgwn.  Er ei bod yn debygol y bydd cynnydd mewn gohebiaeth gan gefnogwyr rasio milgwn, amcangyfrifir mai'r effaith net fydd gostyngiad o £3,800 y flwyddyn yn y costau gweinyddol.

| **Trosiannol: £0** | **Cylchol: £22,800** | **Cyfanswm: £22,800** | **GP: £20,200** |
|---|---|---|---|

**Cost Weinyddol Net: £77,000**

## Cost Cydymffurfio

| | | | |
|---|---|---|---|
| Disgwylir i Valley Greyhounds Ltd (Valley) deimlo effaith uniongyrchol y gwaharddiad trwy golli elw. Cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig yw 42 Lytton Road, Barnet, y Deyrnas Unedig, EN5 5BY[52].<br><br>Er bod rhywfaint o wybodaeth wedi'i darparu am gostau a refeniw, nid yw wedi bod yn bosibl amcangyfrif effaith ariannol y gwaharddiad ar Valley. Er enghraifft, deallir bod gan Valley gontract cyfryngau gyda Sports Information Services Ltd (SIS Ltd), cwmni sy'n darparu gwasanaethau cynnwys a chynhyrchu. Mae SIS Ltd. wedi cadarnhau bod y contract yn werth £15M dros y cyfnod o bum-mlynedd 2023–2028. Ar ôl hynny disgwylir iddo barhau, er nad yw telerau unrhyw estyniad yn hysbys. Heb y Ddeddf hon, rhagdybir y byddai contract(au) cyfryngau pellach yn cael eu cytuno y tu hwnt i ddiwedd y contract presennol. Felly, tybir y bydd yn colli refeniw yn y dyfodol (o'i gymharu â'r senario sylfaenol). Fodd bynnag, nid yw'r costau y mae Valley yn eu hwynebu ar gyfer darparu gwasanaethau'r contract yn hysbys.<br><br>Ni fu modd pennu'r gost o gydymffurfio oherwydd diffyg gwybodaeth gyhoeddus am elw a cholled Valley. Nid yw'r gost felly yn hysbys. Fodd bynnag, disgwylir y bydd costau cydymffurfio yn fwy na'r arbedion gweinyddol bach a nodwyd yn yr adrannau uchod. | | | |
| **Trosiannol: £0** | **Cylchol: £0** | **Cyfanswm: £0** | **GP: £0** |

[52] VALLEY GREYHOUNDS LTD filing history - Find and update company information - GOV.UK

## Costau eraill

Byddai gwahardd rasio milgwn yn arwain at golled ariannol uniongyrchol i Valley, sydd ar hyn o bryd yn elwa ar rasio milgwn. Nid yw'r effaith ariannol ar y perchnogion yn hysbys, oherwydd y diffyg data sydd ar gael am ei weithgareddau ariannol sy'n gysylltiedig â rasio milgwn.

Byddai gwaharddiad yn cael effaith andwyol ar gyflogaeth yn y trac. Byddai hyn yn cynnwys y rhai a gyflogir yn uniongyrchol yn ogystal â chontractau ar gyfer gwasanaethau ar y trac, er enghraifft, glanhau ac arlwyo. Nid ydym yn gwybod chwaith beth yw union gost y staff amser llawn a rhan-amser a gyflogir gan Valley. Mae'r rhestr[53] hyfforddwyr a gyhoeddwyd gan GBGB yn dangos bod 12 hyfforddwr yn gweithio yn y trac, tra bod Valley wedi dweud wrth y Grŵp Gweithredu bod 15 o hyfforddwyr yn gysylltiedig â Valley. Byddai'r staff cyflogedig, busnesau a hyfforddwyr cysylltiedig, ynghyd â'u gweithwyr, i gyd yn wynebu colli incwm. At ei gilydd, disgwylir i unrhyw effeithiau negyddol ar gyflogaeth fod yn fach o'u hystyried yng nghyd-destun trosiant cyffredinol y farchnad lafur yng Nghymru.

Gall unigolion a busnesau nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Stadiwm Valley, fel y rhai sy'n cynnig nwyddau a gwasanaethau, golli incwm hefyd. Mae'r trac yn cynnal nifer fawr o rasys, gyda'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa'n gwylio drwy wasanaethau ffrydio byw. Credir mai ychydig iawn o bobl sy'n dod i’r trac i wylio'r rasys. O ganlyniad, rhagwelir mai ychydig iawn o effaith economaidd ehangach a geir ar y gymuned leol, gan effeithio'n bennaf ar y rhai sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y stadiwm ochr yn ochr â hyfforddwyr a cheidwaid milgwn rasio.

[53] GBGB Trainer list | Greyhound Board of Great Britain

## Costau eraill Parhad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Efallai y bydd y gwariant mewn busnesau lleol (e.e. tafarndai, bwytai) yn is, er bod y gwariant hwn yn debygol o gael ei ddadleoli'n lleol.<br><br>Mae gan SIS Ltd gontract i ffrydio'r rasys milgwn a gynhelir yn Valley ac efallai y gwelant ostyngiad yn eu refeniw unwaith y caiff rasio milgwn ei wahardd yng Nghymru.<br><br>Efallai y bydd gostyngiadau bach yn yr allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio gan y bydd llai o bobl yn ymweld â'r safle. Mae potensial ar gyfer costau amgylcheddol yn y dyfodol yn dibynnu ar y defnydd o’r safle, o ystyried ei leoliad a'i sensitifrwydd amgylcheddol.<br><br>Efallai y bydd cost tymor byr i elusennau anifeiliaid sy'n ailgartrefu milgwn wedi ymddeol, a gellid lleddfu'r costau hynny trwy gyflwyno'r newid dros gyfnod pontio (e.e. 2027-2030). Byddai unrhyw gostau o'r fath yn dybiannol ar hyn o bryd. Mae'r Grŵp Gweithredu yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau lles anifeiliaid, ymhlith eraill, i helpu i liniaru'r effaith ar berchnogion presennol a diogelu lles milgwn sydd yn y diwydiant ar hyn o bryd. Mae’r aelodau wedi cadarnhau y byddant yn gallu amsugno costau ailgartrefu milgwn fydd yn colli'u cartrefi yn sgil y gwaharddiad, heb ddisgwyl cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Grŵp Gweithredu hefyd wedi cadarnhau gyda GBGB y bydd sefydliadau ailgartrefu yn derbyn taliad ailgartrefu ac ymddeol GBGB dim ond os ydynt yn rhan o Gynllun Ymddeol Milgwn a gymeradwywyd gan GBGB-. Mae GBGB wedi dweud na fydd yn talu'r arian hwn i sefydliadau sydd naill ai'n cefnogi neu'n gwrthwynebu gwaharddiad ar rasio milgwn ond nad ydynt wedi'u cofrestru o dan y cynllun. O ganlyniad, ni fydd llawer o sefydliadau ailgartrefu yng Nghymru yn derbyn y cyllid hwn.<br><br>Ni fu modd mesur y costau hyn. | | | |
| **Trosiannol: £0** | **Cylchol: £0** | **Cyfanswm: £0** | **GP: £0** |

## Costau heb eu mesur ac anfanteision

| | |
|---|---|
| Mae'r costau heb eu mesur i Valley Greyhounds Ltd ac unigolion a busnesau eraill sydd â chysylltiadau â'r trac wedi'u crynhoi yn yr adrannau uchod.<br><br>Yn ogystal, gall aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu rasys hefyd golli'r gwerth hamdden a'r mwynhad y maent yn eu cael o'r gweithgarwch. Efallai y bydd rhai yn dewis teithio i draciau y tu allan i Gymru i barhau i gymryd rhan, gyda'r amser teithio a’r costau ychwanegol a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny. Fodd bynnag, mae maint yr effeithiau hyn yn anhysbys oherwydd diffyg data ar batrymau presenoldeb a maint ymgysylltiad y cyhoedd. Felly, cydnabyddir yr anfanteision hyn yn ansoddol ond nid oes modd mesur eu gwerth ariannol o fewn yr asesiad hwn. | |
| **Cyfanswm: £0** | **GP: £0** |

## Manteision

| | |
|---|---|
| Disgwylir i'r gwaharddiad ddarparu ystod o fanteision cymdeithasol a diwylliannol a manteision o ran lles anifeiliaid. Mae'r ffordd yr ydym yn trin anifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Byddai gwahardd rasio milgwn yn dileu'r risg o anafiadau, marwolaethau a chanlyniadau gwael ar ôl ymddeol i filgwn rasio. Mae hyn yn cyd-fynd â phryderon cynyddol y cyhoedd ynghylch rasio milgwn, gan gynnwys o ran safonau moesegol. Gall wella enw da Cymru fel gwlad sydd wedi ymrwymo i safonau lles uchel. Gall manteision amgylcheddol ddeillio o lai o deithio i'r stadiwm a llai o ddefnydd ynni sy'n gysylltiedig â digwyddiadau rasio. Gall y polisi annog newidiadau diwylliannol tuag at ddulliau mwy moesegol o ryngweithio ag anifeiliaid.<br><br>Gallai ryddhau'r stadiwm neu'r tir ar gyfer defnyddiau amgen, er enghraifft, gan y gymuned neu ddefnyddiau sydd o fudd i'r amgylchedd. Er eu bod yn anodd eu diffinio a'u meintioli, ystyrir bod y manteision hyn yn bosibl ac yn hirdymor eu natur. | |
| **Cyfanswm: £0** | **GP: £0** |

## Tystiolaeth Allweddol, rhagdybiaethau ac ansicrwydd

Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd a'r wybodaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan Valley Greyhounds Ltd. Mae diffyg data ariannol a gweithredol manwl a data am gyflogaeth gan Valley a'r diwydiant ehangach, yn golygu na ellir asesu'r effeithiau ar fusnes, cyflogaeth a'r economi ehangach ar lefel fanwl.

Mae'r rhagdybiaethau allweddol felly yn cynnwys y byddai gweithgarwch rasio Valley fel arall yn aros yn sefydlog neu'n cynyddu oherwydd ei gontract cyfryngau; y gall yr awdurdod lleol amsugno mesurau gorfodi o fewn ei adnoddau presennol, bydd gohebiaeth am bryderon lles yn sgil rasio milgwn yng Nghymru at Lywodraeth Cymru yn lleihau yn dilyn gwaharddiad; ac y bydd modd delio â'r pwysau ailgartrefu yn ystod cyfnod pontio gyda chymorth y Grŵp Gweithredu.

Nid yw'r ychydig o wybodaeth a roddwyd yn uniongyrchol gan y diwydiant rasio i swyddogion Llywodraeth Cymru a thrwy'r Grŵp Gweithredu yn ddigon i allu cynnal asesiad manwl o wydnwch ariannol hyfforddwyr, faint y mae'r economi leol yn dibynnu ar rasio milgwn, sut caiff y safle ei ddefnyddio yn y dyfodol, a maint yr effeithiau ar rasio ar draws ffiniau. O ganlyniad, nid oes modd mesur nifer o gostau, yn enwedig o ran yr elw y bydd Valley yn ei golli, yr effaith ar fusnesau cysylltiedig a'r ôl troed hirdymor ar yr economi.

Mae'r ychydig wybodaeth a gafwyd gan Valley am nifer yr ymwelwyr yn golygu nad ydym wedi gallu cynnal asesiad manwl o'r effaith gymdeithasol ar y gymuned leol, gan gynnwys i ba raddau y mae pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rasio milgwn, neu'n dibynnu arnyn nhw, fel ffynhonnell hamddena neu gydymwneud cymdeithasol. O ganlyniad, ni ellir mesur pa mor fawr fydd yr effaith gymdeithasol. Bydd y Grŵp Gweithredu yn chwarae rhan amlwg yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau canfyddedig ac yn rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol i gefnogi'r gymuned leol dros y cyfnod pontio.

Gallai Stadiwm Valley barhau i ddarparu manteision cymunedol drwy weithgareddau chwaraeon neu hamdden eraill. Fodd bynnag, mae lefel uchel o ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r effeithiau posibl ar yr unig drac rasio milgwn yng Nghymru ac unrhyw ddiwydiannau cysylltiedig. Oherwydd yr ansicrwydd hwn, ni fu modd meintioli costau'r effeithiau hyn ar hyn o bryd.

Nid yw’r costau sy’n gysylltiedig â monitro ac adolygu deddfwriaeth wedi’u cynnwys gan yr ystyrir ei fod yn fusnes fel arfer ac yn rhan o arfer polisi safonol.

## Asesiad o Fforddiadwyedd

### Trosolwg

6.4. Mae'r asesiad hwn yn ystyried fforddiadwyedd Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus perthnasol yng Nghymru ac yn ystyried ei goblygiadau ariannol i'r cyrff hyn.

### Crynodeb o'r Asesiad

6.5. Yn dilyn adolygiad o'r cynigion deddfwriaethol a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig, rydym wedi dod i'r casgliadau canlynol:

- Ychydig iawn o gostau ariannol newydd sydd i Lywodraeth Cymru o ganlyniad uniongyrchol i'r Ddeddf.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau sy'n gysylltiedig â'r Grŵp Gweithredu, gan gynnwys tâl i'r Cadeirydd a benodir a threuliau teithio a chynhaliaeth aelodau'r grŵp. Bydd y costau hyn oddeutu £3,300 y flwyddyn.
- Mae'r holl gostau ac arbedion eraill a nodwyd yn yr RIA yn gysylltiedig ag amser staff presennol ac yn cynrychioli costau cyfle/arbedion. .
- Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol newydd i awdurdodau lleol, asiantaethau gorfodi neu sefydliadau sector cyhoeddus eraill.

### Sail

- Mae'r Ddeddf yn cyflwyno gwaharddiad ar rasio milgwn, sydd ar hyn o bryd wedi'i gyfyngu i un busnes yng Nghymru.
- Mae'r ffordd rydym yn mynd ati wedi'i chynllunio i fod yn gymesur ac mae'r dyddiadau y daw'r newidiadau i rym rhwng Ebrill 2027 ac Ebrill 2030 yn caniatáu hyblygrwydd i ganiatáu pontio llyfn heb fod angen adnoddau ychwanegol oddi wrth y sector cyhoeddus.
- Nid oes unrhyw fecanweithiau rheoleiddio neu orfodi newydd yn cael eu creu a fyddai'n gofyn am wariant cyhoeddus.
- Rhagwelir y bydd swyddogion lles anifeiliaid presennol o fewn yr awdurdod lleol, fel y corff gorfodi, yn parhau i weithredu o fewn eu cylchoedd gwaith a'u cyllidebau presennol ac yn amsugno unrhyw weithgarwch a allai godi.
- Mae'r Grŵp Gweithredu yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

## Casgliad

6.6. Ni ddisgwylir i Ddeddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) arwain at unrhyw faich ariannol ychwanegol arwyddocaol ar gyrff cyhoeddus. Mae'r polisi wedi'i ddylunio fel bod y trawsnewidiad i ffwrdd o rasio milgwn yn cael ei reoli o fewn strwythurau ac adnoddau presennol. Ar y sail hon, ystyrir bod y Ddeddf yn fforddiadwy i gyrff cyhoeddus Cymru.

## Asesiad o'r Gystadleuaeth

6.7. Mae deall a dadansoddi effeithiau deddfau, rheoliadau a pholisïau presennol ac arfaethedig ar gystadleuaeth yn bwysig er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau neu ystumiadau anfwriadol i farchnadoedd.

6.8. Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth Llywodraeth Cymru wedi'i gymhwyso i'r Ddeddf, sef yr opsiwn a ffefrir fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio.

| **Prawf hidlo'r gystadleuaeth** | **Ateb (Ie neu Na)** |
|---|---|
| **C1**: Yn y farchnad neu farchnadoedd yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 10% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C2**: Yn y farchnad neu farchnadoedd yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C3**: Yn y farchnad neu farchnadoedd yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C4**: A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Byddai |
| **C5**: A fydd y rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Bydd |
| **C6**: A fydd y rheoliad yn arwain at gostau sefydlu busnes uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fydd |
| **C7**: A fydd y rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fydd |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fydd y rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Bydd |

6.9. Stadiwm Milgwn Valley yn Ystrad Mynach yw'r unig drac rasio milgwn sydd ar ôl yng Nghymru.[54] Fe'i hagorwyd ym 1976, ac roedd yn gweithredu'n ddidrwydded tan fis Awst 2023, pan gafodd ei thrwyddedu gan y GBGB, gyda'i ras gyntaf o dan drwydded y GBGB yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd 2023. Mae'n cael ei ddosbarthu fel busnes bach, gan fod ganddo lai na 50 o weithwyr.

6.10. Er bod 18 o draciau rasio milgwn eraill sydd wedi'u trwyddedu gan y GBGB mewn mannau eraill yn y DU, mae'n ymddangos mai ychydig iawn o gystadleuaeth yn y farchnad sydd rhwng Stadiwm Milgwn Valley a'r traciau eraill.

6.11. Ar hyn o bryd, mae gan y Stadiwm gontract cyfryngau gyda Sports Information Services (SIS Ltd.). Mae manylion ei werth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael yn dangos bod hwn yn gontract treigl gwerth £15 miliwn dros y cyfnod o bum-mlynedd rhwng 2023 a 2028. Nid yw telerau unrhyw estyniad yn hysbys.

6.12. Mae'r Ddeddf, sy'n gwahardd rasio milgwn yng, Nghymru yn golygu y byddwn yn atal gallu'r Stadiwm i gynnal rasio milgwn yn y pen draw. Gall hefyd effeithio ar y contract sydd ganddi gydag SIS Ltd.

6.13. Cydnabyddir y bydd y gwaharddiad yn cael effaith negyddol ar allu'r Stadiwm i weithredu fel lleoliad ar gyfer rasio milgwn. Bydd y Ddeddf hefyd yn atal unrhyw draciau rasio milgwn pellach rhag agor yng Nghymru yn y dyfodol. Dyma effeithiau bwriedig y polisi.

[54] Greyhounds | Valley Greyhounds | Wales

## 7. Yr opsiynau

7.1. Fel yr amlinellir ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol, amcan y polisi yw gwahardd rasio milgwn yng Nghymru.

7.2. Mae tri opsiwn wedi'u hystyried i gyflawni amcan datganedig Llywodraeth Cymru o wahardd rasio milgwn yng Nghymru.

- Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer – caniatáu i rasio milgwn barhau yng Nghymru
- Opsiwn 2 – Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr milgwn.
- Opsiwn 3 – Cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd rasio milgwn yng Nghymru.

7.3. Disgrifir pob opsiwn isod, ynghyd â chostau a manteision cysylltiedig, lle bo hynny'n berthnasol. Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn archwilio Opsiynau 1 a 2 yn fanwl gan nad ydynt yn bodloni'r amcan polisi.

### Opsiwn 1: Busnes fel arfer – caniatáu i rasio milgwn barhau yng Nghymru

7.4. Stadiwm Milgwn Valley[55] yn Ystrad Mynach yw'r unig drac rasio milgwn sydd ar ôl yng Nghymru. Fe’i hagorwyd ym 1976, ac roedd yn gweithredu fel trac annibynnol tan fis Awst 2023, pan gafodd ei drwyddedu gan y GBGB, gyda'i ras gyntaf o dan drwydded GBGB yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd 2023.

7.5. Er bod y diwydiant rasio milgwn wedi bod yn dirywio'n raddol, gyda thraciau'n cau a llai o bobl yn mynd i wylio, mae Valley yn cynnal cyfarfodydd rasio rheolaidd ac mae nifer y rasys a gynhelir wedi cynyddu ers iddo gael ei drwyddedu gan y GBGB. Mae Valley bellach yn cynnal tri chyfarfod rasio yr wythnos, i fyny o un cyfarfod yr wythnos yn ystod ei amser fel trac didrwydded annibynnol.

7.6. Credir mai'r rheswm pennaf am hyn yw mai prif ffynhonnell incwm Valley yw'r contract ffrydio byw gyda Sports Information Services (SIS) Ltd. Mae SIS yn talu traciau trwyddedig am yr hawliau i ddarlledu rasys milgwn byw i siopau betio a phlatfformau ar-lein.

7.7. O ganlyniad, ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai nifer y rasys milgwn yn Valley yn lleihau. Pe na bai’r Ddeddf hon wedi dod i rym, mae'n fwy tebygol y byddai nifer y rasys milgwn a gynhelir yn Valley wedi aros yn sefydlog neu wedi cynyddu, wedi'u sbarduno gan ei gytundebau ffrydio byw.

7.8. Pe bai nifer y rasys milgwn a gynhelir yn Valley wedi aros yn sefydlog neu wedi cynyddu, mae’n debygol y byddai nifer y milgwn sydd eu hangen ar gyfer rasio wedi aros yn sefydlog neu wedi cynyddu. Mae'n rhesymol rhagweld y bydd y risgiau i les milgwn, gan gynnwys anafiadau sy'n gysylltiedig â’r trac a marwolaethau sy'n gysylltiedig â rasio, yn adlewyrchu'r tueddiadau a welir yn

[55] Greyhounds | Valley Greyhounds | Wales

gyson yn y data a gyhoeddir yn flynyddol ar anafiadau a marwolaethau[56] mewn rasys a reoleiddir gan GBGB. Gallai hyn fod wedi cynyddu cryfder teimladau'r cyhoedd a phwysau rhanddeiliaid sy'n galw am waharddiad ar rasio milgwn.

7.9. Fel y trafodwyd ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol ym mis Ebrill 2025, cyflwynodd Aelod o'r Wrthblaid yn Senedd yr Alban, Mark Ruskell MSP, Fil aelodau preifat, The Prohibition of Greyhound Racing (Scotland) Bill[57] i wahardd rasio milgwn yn yr Alban[58]. Cafodd y Bil ei basio gan Senedd yr Alban ym mis Mawrth 2026, ac os bydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol, caiff rasio milgwn yn yr Alban ei wahardd.

7.10. Mae rasio milgwn yn parhau i fod yn gyfreithlon yn Lloegr a nododd Llywodraeth y DU ym mis Chwefror nad oes ganddi unrhyw fwriad[59] i wahardd rasio milgwn yn Lloegr.

7.11. Ni fyddai "busnes fel arfer" yn bodloni'r amcan polisi o wahardd rasio milgwn yng Nghymru.

**Opsiwn 2: Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr milgwn.**

7.12. Nid oes unrhyw reoliadau penodol ar gyfer lles milgwn yng Nghymru, ond mae eu lles yn dod o dan gwmpas deddfwriaeth ehangach, gan gynnwys Deddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol.

7.13. Fel y trafodwyd ym Mhennod 3 a Phennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol, i gydnabod diddordeb sylweddol y cyhoedd yn lles milgwn rasio, ac yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Deisebau[60], cafodd dau gwestiwn penodol sy'n berthnasol i rasio milgwn eu cynnwys yn yr ymgynghoriad Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid[61] a ddaeth i ben ar 1 Mawrth 2024, gan ddenu dros 1100 o ymatebion.

7.14. Ar y cwestiwn sy'n ymwneud â thrwyddedu perchnogion, hyfforddwyr a cheidwaid cŵn rasio, atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (55.5%) "ie", gan nodi pryder nad yw lles cŵn rasio yn cael ei ddiogelu'n ddigonol ar hyn o bryd. Dywedodd 40.6% "na", ac o'r rheini a ddywedodd "na", roedd 31.6% yn teimlo nad yw'r rheoleiddio presennol dan arweiniad y diwydiant yn ddigonol a dadlau na allai unrhyw fath o system drwyddedu amddiffyn cŵn rasio yn ddigonol gan alw am ddiddymu rasio milgwn. Roedd gweddill yr ymatebwyr a atebodd "na" (7.8%) o'r farn bod safonau presennol y GBGB yn ddigonol a bod y diwydiant yn gwneud digon i ddiogelu lles milgwn rasio.

7.15. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y gallai trwyddedu fod yn gam cychwynnol tuag at reoleiddio'r diwydiant. Awgrymwyd y byddai trwyddedu yn helpu i

[56] Injury and Retirement Data | Greyhound Board of Great Britain
[57] Proposed Prohibition of Greyhound Racing Scotland Bill | Scottish Parliament Website
[58] Greyhound Racing (Offences) (Scotland) Bill | Scottish Parliament Website
[59] Topical Questions - Hansard - UK Parliament
[60] Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru - Deisebau
[61] https://www.llyw.cymru/trwyddedu-sefydliadau-lles-gweithgareddau-ac-arddangosfeydd-anifeiliaid

feithrin dealltwriaeth gliriach o gylch bywyd llawn milgi rasio. Yn ei dro, gallai hyn ddarparu sylfaen dystiolaeth i gefnogi neu wrthbrofi'r achos dros waharddiad yn y dyfodol.

7.16. Nid yw trwyddedu perchnogion, ceidwaid neu hyfforddwyr wedi'i gynnwys yn yr asesiad penodol hwn gan nad yw'n cyd-fynd â'r prif amcan polisi o wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal ei ystyried mewn trafodaethau ehangach ynghylch lles anifeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddull cynhwysfawr o ymdrin â lles anifeiliaid, a gall mesurau o'r fath barhau i fod yn rhan o ddatblygu polisi yn y dyfodol neu gael eu harchwilio o fewn fframweithiau ehangach sy'n mynd i'r afael â lles anifeiliaid mewn cyd-destunau eraill.

7.17. Er bod llawer o'r ymatebwyr o blaid cynllun trwyddedu ar gyfer perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr, nid yw'n bodloni'r amcan polisi o wahardd rasio milgwn yng Nghymru, felly nid yw wedi'i ystyried fel rhan o'r asesiad hwn.

7.18. Edrychwyd ar reoleiddio a thrwyddedu yn ystod Cam un proses y Bil yn ystod sesiynau tystiolaeth, a chynigiwyd diwygiadau nad oeddynt yn rhai gan y llywodraeth yng Ngham 2 i gyflwyno fframwaith rheoleiddio. Dim ond un stadiwm rasio milgwn sy'n gweithredu yng Nghymru sydd wedi'i thrwyddedu gan GBGB, ac felly eisoes yn gweithredu o dan safonau'r diwydiant. Byddai sefydlu strwythurau rheoleiddio a gorfodi ychwanegol am gyfnod interim byr yn anghymesur a byddai'n gohirio'r dyddiad y daw'r gwaharddiad i rym, gan estyn y cyfnod pan fydd milgwn yn dal i fod mewn perygl o anaf neu farwolaeth. Er gwaethaf safonau GBGB a mesurau lles gwirfoddol pellach, mae milgwn yn dal i gael eu hanafu. Mae cyflwyno rheoleiddio nawr wedi cael ei asesu a daethpwyd i'r casgliad na fyddai'n darparu unrhyw fudd ystyrlon o ran lles.

**Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd rasio milgwn yng Nghymru**

7.19. Cafwyd cefnogaeth sylweddol i wahardd rasio milgwn yng Nghymru am resymau lles ac er mwyn osgoi eu hecsbloetio a'u masnachu. Mae ystyriaethau moesegol a moesol ehangach, ac roedd llawer o unigolion, sefydliadau, Gweinidogion ac Aelodau o'r Senedd yn credu bod rasio milgwn yn annerbyniol ac yn hen ffasiwn.

7.20. Fel yr amlinellir ym Mhennod 3 a Phennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol, mae cefnogaeth sylweddol gan randdeiliaid a'r cyhoedd i wahardd rasio milgwn, wedi'i sbarduno gan bryderon am les anifeiliaid. Mae llawer yn credu bod angen dod â'r arfer i ben er mwyn amddiffyn milgwn rhag niwed a rhag eu hecsbloetio a'u masnachu. Mae pryderon lles a godwyd gan randdeiliaid[62] yn cynnwys y gyfradd anafiadau a marwolaethau, ewthanasia, gorfridio a darpariaethau annigonol ar gyfer gofal ar ôl rasio ac ymddeol.

7.21. Yn ogystal â'r pryderon am les, ceir dadl foesol hefyd dros waharddiad, sy'n adlewyrchu gwerthoedd esblygol cymdeithas ynghylch trin anifeiliaid yn foesegol a'r ffaith bod goddefgarwch cymdeithas am ddiwydiannau yr ystyrir eu

[62] Trwyddedu gweithgareddau, arddangosfeydd a sefydliadau lles anifeiliaid | LLYW.CYMRU

bod yn dibynnu ar ddioddefaint anifeiliaid ar gyfer adloniant yn pylu. O ganlyniad i hyn, ystyrir ei bod yn fwyfwy anodd cyfiawnhau gwneud milgwn yn agored i niwed drwy rasio.

7.22. Fel yr amlinellir yng Nghynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021 i 2026[63], ein gweledigaeth yw i bob anifail gael bywyd da, lle mae ei anghenion corfforol ac emosiynol yn cael eu diwallu a lle mae’n cael ei amddiffyn rhag niwed. Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig i wahardd rasio milgwn yng Nghymru yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, lle roedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cefnogi gwaharddiad graddol, ac mewn ymateb i ddeiseb a lofnodwyd gan dros 35,000 o bobl, rydym yn cymryd camau pendant i ddiogelu lles milgwn rasio.

7.23. Mae'r symudiad hwn tuag at waharddiad yn cyd-fynd â'n strategaeth ehangach i gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio sefydliadau a gweithgareddau lles anifeiliaid, gan sicrhau safonau cyson, cymesur a gorfodadwy ledled Cymru.

7.24. Bydd Grŵp Gweithredu yn helpu gyda'r trawsnewidiad, gan ein galluogi i gydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod lles milgwn, buddiannau'r cymunedau yr effeithir arnynt ac uniondeb ein fframwaith lles anifeiliaid i gyd yn cael eu cynnal.

7.25. Mae'r Ddeddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn ceisio ei gwneud yn drosedd rasio milgwn yng Nghymru. Dyma’r opsiwn a ffefrir.

[63] Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU

## 8. Opsiynau, costau a manteision

8.1. Mae costau a manteision wedi'u hasesu dros gyfnod o 5 flynedd o 2027-28 i 2031-32. Oni nodir yn wahanol, mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf. Mae'r prif ffigurau cost a gyflwynir ym Mhennod 6 wedi’u disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EF o 3.5%.

8.2. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi'i chasglu gan wahanol sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau’r trydydd sector. Ychydig o wybodaeth sydd gennym am weithrediadau ariannol Valley. O ganlyniad, ni fu modd mesur cost y gwaharddiad arfaethedig ar rasio milgwn yng Nghymru ar y busnes hwnnw.

### Opsiwn 1: Busnes fel arfer – caniatáu i rasio milgwn barhau yng Nghymru

8.3. Hwn yw'r opsiwn llinell sylfaen ac felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### Crynodeb o'r sefyllfa bresennol ar gyfer rasio milgwn yng Nghymru

8.4. Cyn y Ddeddf, nid oedd unrhyw reoliadau penodol sy'n llywodraethu rasio milgwn yng Nghymru. Nid oedd rasio milgwn yn ddarostyngedig i unrhyw fframwaith rheoleiddio pwrpasol neu drwyddedu o dan gyfraith Cymru. Fel y cyfryw, ni fyddai'r opsiwn o gynnal y sefyllfa bresennol yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol, arbedion cost na manteision mesuradwy.

8.5. Fel a ddisgrifir ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol, Valley yw'r unig drac rasio milgwn yng Nghymru. Ers i'r stadiwm ennill trwydded y GBGB ym mis Tachwedd 2023, mae wedi gweithredu o dan amodau trwydded GBGB. Mae nifer y rasys y mae Valley yn eu cynnal wedi cynyddu ers iddo gael ei drwyddedu gan y GBGB, er bod y diwydiant rasio milgwn yn dirywio yn gyffredinol.

8.6. Fel yr amlinellir ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol, mae credir bod 10 hyfforddwr milgwn wedi'u cofrestru yng Nghymru gyda’r GBGB ar hyn o bryd[64]. Mae'r hyfforddwyr hyn yn rasio eu milgwn yn Valley yn bennaf. Mae 12 hyfforddwr (dau hyfforddwr y tu allan i Gymru) wedi'u cysylltu â'r trac, gyda thua 250-300 o filgwn yn gymwys i rasio yn Valley. Mae rhagor o wybodaeth a gyflwynwyd gan Valley yn nodi bod 15 hyfforddwr wedi'u cysylltu â Valley, ond dim ond 12 sy'n ymddangos ar restr hyfforddwyr cofrestredig GBGB.

8.7. Fel yr amlinellir ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol, rhagwelir y bydd nifer y rasys milgwn a gynhelir yn Valley naill ai'n aros yn gyson neu'n cynyddu oherwydd ei gontractau ffrydio byw. O ganlyniad, mae'r galw am filgwn i gymryd rhan mewn rasys hefyd yn debygol o aros yn gyson neu gynyddu.

[64] GBGB Trainer list | Greyhound Board of Great Britain

8.8. Fel yr amlinellir ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol, ar hyn o bryd nid oes cyfundrefn drwyddedu benodol ar gyfer rasio milgwn yng Nghymru. Yn hytrach, mae lles milgwn rasio yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Deddf Lles Anifeiliaid 2006, Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 a Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014. Er bod y cyfreithiau hyn yn darparu amddiffyniadau cyffredinol, nid ydynt yn cynnig fframwaith pwrpasol ar gyfer rheoleiddio rasio milgwn fel gweithgarwch.

**Opsiwn 2: Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr milgwn.**

8.9. Nid yw cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr milgwn yn bodloni'r amcan polisi o wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Am y rheswm hwn, nid yw'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn wedi'u hystyried yn fanwl.

8.10. Disgwylir i'r costau i’r sector cyhoeddus sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gorfodi cynllun trwyddedu fod yn uwch na'r rhai o dan Opsiwn 3. Ar hyn o bryd, mae GBGB yn trwyddedu gweithgarwch rasio milgwn yng Nghymru, ac mae'n debygol y byddai unrhyw fodel trwyddedu gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn adlewyrchu neu'n adeiladu ar y safonau sydd eisoes ar waith yn Valley. Gallai cyflwyno system drwyddedu ar gyfer rasio milgwn yng Nghymru ddod â nifer o fanteision megis helpu i sicrhau bod pob gweithgaredd rasio milgwn yn bodloni safonau clir a chyson, gan gynnwys safonau lles anifeiliaid. Gallai trwyddedu hefyd ei gwneud yn haws monitro gofal a thriniaeth milgwn drwy gydol eu hoes, o fridio i ymddeol. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyder i'r cyhoedd ac awdurdodau bod milgwn yn cael gofal priodol ac nad ydynt yn cael eu niweidio. Mae yna risg o anafu milgwn ynghlwm wrth y weithred o rasio ei hun. Er y gall mesurau trwyddedu wella lles, tryloywder ac atebolrwydd, ni allant ddileu'r peryglon sylfaenol sy'n gysylltiedig â rasio. Mae Valley eisoes yn gweithredu o dan fframwaith rheoleiddio GBGB; fodd bynnag, mae milgwn sy'n rasio mewn stadia a reoleiddir gan GBGB, gan gynnwys Valley, yn dal i wynebu'r risg o anaf a marwolaeth, hynny am eu bod yn rasio, hyd yn oed pan fodlonir safonau presennol y diwydiant. Mae hyn yn dangos bod y risgiau craidd yn parhau waeth a ydynt yn cydymffurfio neu beidio, ac felly gall y manteision ychwanegol o atal niwed trwy drwydded statudol fod yn anodd eu mesur yn hyderus.

8.11. Nid yw'r opsiwn o drwyddedu perchnogion, ceidwaid a hyfforddwyr milgwn presennol yn cael ei ddiystyru gan nad yw'r gwaharddiad yn gymwys i fod yn berchen ar filgwn rasio, eu cadw na bod yn berchen arnynt at ddibenion eu hyfforddi. Mae'n cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith ehangach ar y model cenedlaethol ar gyfer trwyddedu sefydliadau anifeiliaid. Gall y Grŵp Gweithredu roi cyngor pellach ar y mater hwn. Fodd bynnag, gan nad yw'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â’r amcan polisi i wahardd rasio milgwn yng Nghymru, mae y tu allan i gwmpas yr asesiad penodol hwn.

### Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd rasio milgwn yng Nghymru

8.12. Mae rasio milgwn yn parhau i fod yn gyfreithlon yng Nghymru ar hyn o bryd. Fel y disgrifir ym Mhennod 3 a Phennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol, bu cefnogaeth sylweddol i wahardd y gweithgarwch gan unigolion, sefydliadau lles anifeiliaid ac Aelodau o'r Senedd. Mae'r galwadau hyn yn adlewyrchu pryderon cynyddol am ecsbloetio milgwn a'u defnyddio fel nwydd, ac awydd i ddod ag arferion o'r fath i ben.

8.13. Cafodd deiseb gan sefydliad trydydd sector, a fanylir ym Mhennod 3 a Phennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol, a oedd yn tynnu sylw at bryderon am les milgwn, ei llofnodi gan 35,101 o bobl ac fe'i hadolygwyd gan Bwyllgor Deisebau'r Senedd[65] yn 2022. Casgliad adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar y ddeiseb *Y Troad Terfynol?*[66] oedd argymhelliad mwyafrifol yn cefnogi gwahardd rasio milgwn yn raddol a chafodd ei thrafod gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mawrth 2023.

8.14. Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol, cyflwynwyd gwrthddeiseb o'r enw *Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi rasio milgwn yng Nghymru*[67] mewn ymateb i'r galwadau am waharddiad. Cafodd ei llofnodi gan 10,601 o bobl ac fe'i hystyriwyd gan Bwyllgor Deisebau'r Senedd yn 2023. Dadleuodd y ddeiseb fod rasio milgwn yn darparu manteision economaidd a chymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd fel Ystrad Mynach, a chododd bryderon am effaith bosibl gwaharddiad ar Valley. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod Valley yn y broses o ddod yn drac a drwyddedir gan y GBGB, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddo gadw at dros 200 o reolau lles ac uniondeb y GBGB. Galwodd cefnogwyr y ddeiseb am driniaeth deg er mwyn i rasio milgwn gael yr un gydnabyddiaeth â chwaraeon anifeiliaid eraill a reoleiddir yng Nghymru.

8.15. Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol, yn sgil diddordeb sylweddol y cyhoedd yn lles milgwn rasio, adroddiad *Y Troad Terfynol?* ac argymhellion gan y Pwyllgor Deisebau, cytunodd Llywodraeth Cymru i gynnwys cwestiynau am rasio milgwn yn ei ymgynghoriad *Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid*[68]. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad[69] ar 18 Rhagfyr 2024 a chyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar 24 Mehefin 2025[70].

8.16. Disgrifir y sail resymegol dros gyhoeddiad o blaid gwahardd rasio milgwn yng Nghymru ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol ac fe'i trafodir ymhellach ym Mhennod 7.

---

[65] Y Pwyllgor Deisebau
[66] Y Troad Terfynol?
[67] Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi rasio milgwn yng Nghymru - Deisebau
[68] Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid | LLYW.CYMRU
[69] Trwyddedu Sefydliadau Lles, Gweithgareddau ac Arddangosfeydd Anifeiliaid
[70] Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid:Ymateb Llywodraeth Cymru | LLYW. CYMRU

## Effaith ar gymunedau lleol, economiau lleol a'r diwydiant rasio milgwn yng Nghymru.

8.17. Fel a ddisgrifir ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol, Valley yw'r unig drac rasio milgwn yng Nghymru. Bydd effaith uniongyrchol gwahardd rasio milgwn yng Nghymru yn disgyn ar berchennog a gweithwyr y stadiwm hon a pherchnogion, hyfforddwyr a cheidwaid milgwn rasio yng Nghymru sy'n rasio yn Valley. Byddai unrhyw elw a wneir gan berchnogion Valley o ganlyniad i weithredu'r trac ar gyfer gweithgareddau rasio milgwn yn dod i ben unwaith y bydd gwaharddiad ar rasio milgwn yn cael ei weithredu yng Nghymru.

8.18. Deallir bod gan Valley gontract cyfryngau gyda Sports Information Services Ltd, cwmni sy'n darparu cynnwys a gwasanaethau cynhyrchu. Mae SIS Ltd. wedi cadarnhau mai gwerth y contract dros y cyfnod o bum-mlynedd 2023–2028 yw £15M, ac ar ôl hynny disgwylir iddo fynd yn ei flaen, er nad yw telerau unrhyw estyniad yn hysbys. Mae SIS Ltd. a stadiwm Valley wedi nodi, er mwyn bodloni gofynion y cytundeb, bod yn rhaid i Valley gynnal cyflenwad cyson o rasys i allu cyflwyno cynnyrch betio sefydlog a chystadleuol. Heb y ddeddfwriaeth hon, rhagdybir y byddai contract(au) cyfryngau pellach yn cael eu cytuno y tu hwnt i ddiwedd y contract presennol. Felly, rhagdybir y bydd refeniw'n cael ei golli (o'i gymharu â'r senario llinell sylfaen), hyd yn oed pe bai'r gwaharddiad yn cyd-fynd â diwedd y contract presennol.

8.19. Mae'n anodd pennu effaith ariannol y gwaharddiad arfaethedig ar y trac gan fod Valley wedi'i eithrio rhag gorfod cyhoeddi set lawn o gyfrifon. Mae cyfrifon llawn wedi'u heithrio'n llwyr ar gyfer Valley Greyhounds Ltd a ffeiliwyd ar gyfer y cyfnod Medi 2022 – 31 Rhagfyr 2023 yn nodi nad oedd yn ofynnol i'r cwmni gael archwiliad o'i ddatganiadau ariannol ar gyfer y cyfnod hwn (yn unol ag adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006), ac nad oedd yn ofynnol iddo gynnwys Datganiad o Incwm ac Enillion a Gadwyd (yn unol ag adran 444 o Ddeddf Cwmnïau 2006[71],[72]).

8.20. Mae cyfrifon llawn wedi'u heithrio'n llwyr a ffeiliwyd ar gyfer Medi 2022 - 31 Rhagfyr 2023 yn nodi mai nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y cyfnod hwn oedd un[73].

8.21. Mae Llywodraeth Cymru, drwy swyddogion a thrwy Gadeirydd y Grŵp Gweithredu, wedi gofyn sawl gwaith i Valley am y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen i allu asesu'r effeithiau posibl ar y busnes, y gymuned leol a'r economi ehangach yn llawn. Gwnaeth prosesau craffu'r Senedd hefyd roi cyfle iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth, yn ystod sesiynau tystiolaeth y Senedd, drwy gais y Pwyllgor am dystiolaeth ysgrifenedig, ac fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus y Senedd. Mae diffyg data elw a cholled, ffigurau gwariant

---

[71] VALLEY GREYHOUNDS LTD filing history - Find and update company information - GOV.UK
Ar gyfer blynyddoedd ariannol a ddechreuodd rhwng 1 Ionawr 2016 a 5 Ebrill 2025, roedd y trothwyon ar gyfer cyflwyno cyfrifon esempt oedd:

- Trosiant blynyddol: Dim mwy na £10.2 miliwn
- Cyfanswm y fantolen (asedau gros): Dim mwy na £5.1 miliwn
- Nifer cyfartalog y gweithwyr: Dim mwy na 50

[73] VALLEY GREYHOUNDS LTD filing history - Find and update company information - GOV.UK

blynyddol, neu wybodaeth fanwl am weithwyr a chyflenwyr yn ein rhwystro rhag deall yn llawn ôl troed ariannol Valley yn yr economi leol. Heb eglurder ynghylch faint a gaffaelir yn lleol, defnydd contractwyr, neu wariant yn y gymuned, nid yw'n bosibl mesur y newidiadau economaidd ehangach a allai ddigwydd yn dilyn gwaharddiad.

8.22. O ganlyniad, nid oes modd amcangyfrif ar hyn o bryd yr elw y bydd Valley yn ei golli o ganlyniad i'r gwaharddiad. Am yr un rhesymau, nid yw'n bosibl mesur yn llawn yr effeithiau economaidd neu gymdeithasol ehangach a ddaw yn sgil cau'r trac, gan gynnwys unrhyw effeithiau ar swyddi lleol, patrymau gwariant yn y gymuned, neu weithgaredd busnes cysylltiedig. Felly, mae'r gost hon yn anhysbys.

8.23. Yn ôl *The Economic Impact of Greyhound Racing in the UK: A Report for the Greyhound Board of Great Britain*[74], mae'r diwydiant rasio milgwn yn cynnal dros 5,400 o swyddi ledled y DU, gyda'r mwyafrif, tua 5,000, yn cael eu cyflogi gan draciau rasio neu'n hyfforddwyr sy'n ganolog i gynnal a gofalu am filgwn rasio. Mae'r swyddi sy'n weddill wedi'u dosbarthu ymhlith bridwyr, darparwyr hawliau cyfryngau a chyrff rheoleiddio. Mae Valley yn cyfrif am lai nag 1% o gyfanswm y swyddi hyn, fel a ddisgrifir yn yr adran *Total Direct Employment in Greyhound Racing, by Region* (Ffynhonnell: GBGB, dadansoddiad Oliver ac Ohlbaum). Er y gallai'r ffigur hwn fod wedi cynyddu ar ôl cyflwyno trwyddedu’r GBGB, mae'n anodd pennu maint y newid oherwydd diffyg data ar y rolau hyn.

8.24. Yn ôl y wybodaeth a ddarparwyd gan Valley, mae eu gweithlu'n un cymysg sy'n cynnwys staff a gyflogir yn uniongyrchol ac unigolion hunangyflogedig neu ar is-gontract. Yn ôl y wybodaeth a ddarparwyd, mae Valley yn cyflogi 7 unigolyn yn uniongyrchol: 1 rheolwr rasys llawn-amser, 6 swyddog rasys rhan-amser a staff trac, 1 glanhawr rhan-amser. Yn ogystal, mae 1 rheolwr cyffredinol llawn-amser, 1 gweithiwr swyddfa rasys a thrac, a 2 aelod o staff gweinyddol rhan-amser-yn cael eu cyflogi gan Harlow Town Greyhound Entertainment Ltd[75] (Harlow) ond maent yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â gwaith Valley. Mae'r defnydd o staff cyflogedig o Harlow, cwmni yn Essex, yn awgrymu ymhellach bod rhywfaint o incwm sy'n gysylltiedig â'r trac yn llifo allan o'r ardal yn hytrach nag yn aros yn economi Cymru.

8.25. Yn ôl y wybodaeth a ddarparwyd gan Valley, mae 74 o unigolion eraill yn gysylltiedig â'r trac ond nid ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Valley na Harlow. Mae'r grŵp ehangach hwn yn cynnwys 15 o hyfforddwyr milgwn, gyda chefnogaeth 45 o weision cenel sy'n gweithio at ddiben yr hyfforddi hwnnw, yn ogystal â 2 bwci, 3 milfeddyg, 2 aelod o staff arlwyo, 3 dyn camera, a 3 chontractwr cynnal a chadw trac. Mae'r unigolion hyn yn weithwyr rhan-amser, hunangyflogedig, llawrydd, neu ad hoc, gan adlewyrchu'r rhwydwaith ehangach o rolau sy'n ofynnol i gefnogi gweithgarwch rasio. Gan fod llawer o'r bobl hyn yn gweithio'n hyblyg neu'n hunangyflogedig, aseswyd ei bod yn

[74] Publications | Greyhound Board of Great Britain
[75] HARLOW TOWN GREYHOUND ENTERTAINMENT LIMITED overview - Find and update company information - GOV.UK

annhebygol bod pob un o'r 74 yn dibynnu'n bennaf ar Valley am eu hincwm, a bod eu dibyniaeth ariannol ar y trac yn debygol o amrywio'n fawr.

8.26. Er bod y wybodaeth hon gan Valley yn creu darlun defnyddiol o nifer a math o bobl sy'n gysylltiedig â rhedeg y stadiwm, nid yw'n cynnwys gwybodaeth ariannol fanwl fel cyflogau, enillion, neu werth contractau. O ganlyniad, nid yw'n bosibl asesu cyfanswm yr incwm sy'n gysylltiedig â'r swyddi a gynhyrchir gan y trac, na lefel dibyniaeth economaidd ehangach y gweithwyr hyn ar barhad y gweithgarwch rasio.

8.27. Mae'r manylion ariannol a ddarparwyd gan Valley yn cadarnhau nad yw Valley yn cyflogi hyfforddwyr yn uniongyrchol a'u bod yn cael eu talu yn ôl nifer y milgwn maen nhw'n eu rhedeg, gwobrau ariannol am ennill rasys, a thaliadau bonws am nifer uwch o redwyr. Roedd taliadau diweddar i hyfforddwyr Valley yn amrywio o £50 i £12,825, ond nid yw'n glir o'r wybodaeth a gafwyd i ba gyfnod y mae'r taliadau hyn yn perthyn. Ond, er bod y ddogfennau'n esbonio sut mae taliadau wedi'u strwythuro, nid yw'n rhoi manylion yr holl refeniw blynyddol sy'n llifo i hyfforddwyr nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y trac. Gan fod incwm hyfforddwyr yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar faint o gwn sy'n rhedeg ganddynt, ac chan nad oes gwybodaeth am enillion blynyddol wedi'i darparu, nid yw'n bosibl asesu'r effaith ariannol gyffredinol ar hyfforddwyr a'u gweithwyr nac i ba raddau y mae eu bywoliaeth yn dibynnu ar drac Valley.

8.28. Er mwyn deall ymhellach yr effaith ar hyfforddwyr sy'n gysylltiedig â Valley a'u gweithwyr, mae'r Grŵp Gweithredu wedi rhoi holiadur i hyfforddwyr i gasglu gwybodaeth am eu gweithgarwch cyfredol a'u bwriadau pe bai gwaharddiad yn dod i rym. Fodd bynnag, ychydig o ymatebion a gafwyd  hyd yma. O ganlyniad, nid oes gennym digon o dystiolaeth o fewn yr asesiad hwn i allu mesur yr effeithiau tebygol ar hyfforddwyr neu eu gweithlu. Fodd bynnag, bydd y Grŵp Gweithredu'n parhau i archwilio'r effeithiau gyda'r diwydiant ar hyfforddwyr.

8.29. Yn ogystal, gall unrhyw unigolion neu fusnesau sy'n gweithio ar y trac, ond nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Valley, er enghraifft, lletygarwch, glanhawyr neu fwcis sy'n cymryd betiau ar y trac, golli incwm. Mae Valley wedi darparu ychydig o wybodaeth am y busnesau eilaidd a'r darparwyr gwasanaeth hyn; ond nid oes gwybodaeth am wariant blynyddol, cyflogau na manylion ariannol clir wedi'u darparu. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl dweud faint mae'r unigolion neu'r busnesau hyn yn dibynnu ar incwm o'r trac ar hyn o bryd, nac amcangyfrif maint yr effaith ariannol y gallai gwahardd rasio milgwn ei chael. O ganlyniad, ni ellir asesu'r effaith economaidd ehangach ar y rhai sy'n gysylltiedig yn anuniongyrchol â rasio yn llawn. O ystyried mai bach yw maint y dorf a'r symudiad at refeniw cyfryngau, ymddengys bod lefel y newid economaidd lleol yn debygol o fod yn fach ond ni ellir ei fesur.

8.30. Mae Valley wedi datgan gwariant hyd yma o £306,019.20 ar welliannau i'r stadiwm trwy law contractwyr er nad oes unrhyw fanylion pellach wedi'u darparu ar natur, amlder na graddfa flynyddol y gwariant hwn.

8.31. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan Valley yn dangos bod ffi sefydlog o £1,250 yr wythnos yn cael ei thalu i sicrhau bod milfeddygon ar y safle ar gyfer cyfarfodydd rasys, ac amcangyfrifir bod llawdriniaeth i drin anafiadau yn costio rhyw £1,000 yr un. Ariennir hyn ar y cyd gan y trac a GBGB o dan y Cynllun Gwella Anafiadau. Er bod hyn yn golygu nad yw hyfforddwyr yn talu cost y driniaeth pan fydd eu milgwn yn cael eu hanafu, nid oes unrhyw ffigurau blynyddol wedi'u darparu ar gyfer gwariant milfeddygol ehangach, megis gofal pob-dydd, gwasanaethau cymorth neu nifer a chost cyffredinol ymyriadau meddygol dros flwyddyn.

8.32. Nid yw Valley wedi darparu chwaith fanylion am y gweithwyr milfeddygol dan sylw, gan gynnwys a ydyn nhw'n gysylltiedig â phractis lleol neu'n gweithio yn rhywle arall yn bennaf. Heb y wybodaeth hon, nid yw'n bosibl deall maint unrhyw fudd economaidd i fusnesau milfeddygol lleol neu bennu gwariant milfeddygol cyffredinol y trac. Nid yw'n hysbys chwaith sut y byddai'r busnesau milfeddygol yn ymateb i waharddiad ar rasio milgwn yn Valley na pha gyfleoedd eraill allai fodoli i'w digolledu o leiaf yn rhannol am ostyngiad yn eu hincwm. Mae'r diffyg gwybodaeth a yw gweithwyr milfeddygol yn rhai lleol yng Nghymru yn cyfyngu ymhellach ar ein dealltwriaeth o ba raddau y mae'r gwariant hwn yn cynnal economi Cymru yn hytrach na darparwyr mewn mannau eraill. Yn yr un modd, ni wyddys faint o allu sydd gan y sector milfeddygol i ailgyfeirio capasiti yn dilyn gwaharddiad, gan greu rhagor o ansicrwydd ynghylch effaith economaidd bosibl. Rhwng popeth, mae'n amlwg na ellir asesu'n llawn costau gwasanaethau milfeddygol sy'n gysylltiedig â'r safle, na'u heffaith economaidd.

8.33. Mae'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Valley yn cynnig rhywfaint o ddealltwriaeth o'r gweithgarwch economaidd ehangach sy'n gysylltiedig â'r trac, gan gynnwys taliadau am wasanaethau milfeddygol, argraffu, cyfrifyddu, cyflenwadau, noddwyr a gwelliannau parhaus i'r stadiwm. Mae'r manylion ariannol a ddarparwyd gan Valley yn cynnwys cyfres o gostau unigol megis taliadau wythnosol am gyfar milfeddygol, taliadau misol am wasanaethau argraffu a chyfrifyddu, costau cyflenwi ad-hoc, cytundebau â noddwyr, ac anfonebau contractwyr i wneud gwelliannau i'r stadiwm. Fodd bynnag, cyflwynir llawer o'r ffigurau hyn naill ai fel enghreifftiau untro, costau ad-hoc, neu symiau misol ynysig yn hytrach nag fel cyfansymiau blynyddol cynhwysfawr. O ganlyniad, er bod y wybodaeth yn rhoi ciplun i ni o rai meysydd gwariant, nid yw'n cynnig darlun llawn na chyson o gostau gweithredol cylchol nac ymrwymiadau ariannol blynyddol Valley, gan gyfyngu ar ein gallu i asesu'r effaith economaidd gyffredinol yn hyderus.

8.34. Yn ôl *The Economic Impact of Greyhound Racing in the UK* (Oliver ac Ohlbaum ar gyfer y GBGB, 2025), mae rasio milgwn yn parhau i ddenu cynulleidfa sylweddol, gyda thua 1.5 miliwn o wylwyr yn cael eu cofnodi bob blwyddyn ar draws traciau sydd wedi'u trwyddedu gan y GBGB. Er bod lefelau presenoldeb wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd ffactorau allanol megis y pandemig COVID-19, mae'r adroddiad yn nodi adferiad graddol a diddordeb parhaus y cyhoedd, yn enwedig ar draciau gyda dilyniant rhanbarthol

cryf a phrofiadau gwell i gwsmeriaid. Er nad oes data ar gael ar nifer y bobl sy'n mynd i wylio'r rasys yn Valley ar hyn o bryd, rydym yn amcangyfrif ei bod yn annhebygol o fod mwy nag ychydig o gannoedd o bobl yn mynd i bob digwyddiad. O ystyried y lefelau presenoldeb bach hyn, mae'n debygol bod gweithgarwch economaidd yn sgil y dorf yn yr ardal yn gyfyngedig o ran maint. Gan y credir mai contractau ffrydio byw yw'r brif ffynhonnell refeniw, mae ganddo hefyd y potensial i leihau'r pwyslais ar wylwyr.

8.35. Mae Valley wedi datgan na fu gofyn iddo gofnodi union ffigurau presenoldeb ac felly nid yw'n casglu'r wybodaeth hon yn rheolaidd. Ar gyfer y flwyddyn gyfredol, mae'r trac wedi amcangyfrif bod rhyw 180 o bobl ar gyfartaledd yn bresennol ar nos Sadyrnau, 90 ar nos Suliau, a thua 50 yn y cyfarfodydd prynhawn Mercher a Iau. Mae Valley wedi cadarnhau bod yr amcangyfrifon hyn yn ffigurau bras yn unig, bod ffactorau allanol fel digwyddiadau lleol, gwyliau ysgol, gwyliau banc a'r tywydd yn effeithio arnynt. Gan nad yw'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gasgliadau data systematig, maent yn cynnig darlun rhannol yn unig o'r niferoedd sy'n dod i'r safle, gan gyfyngu ar ein gallu i asesu effeithiau ar bresenoldeb yn hyderus.

8.36. Er bod yr ôl troed economaidd i'w weld yn fach, gallai'r trac fod yn bwysig yn gymdeithasol i rai trigolion lleol a'r hyfforddwyr hynny sydd â chysylltiad â'r trac sy'n ei ddefnyddio fel lle hamdden neu gymunedol. Ni ellir mesur yr effeithiau aneconomaidd hyn yn llawn ond maent yn debygol o fod yn lleol ac yn gymharol fach o ran maint.

8.37. Mae'r lefelau presenoldeb bras yn dangos bod nifer yr ymwelwyr â Valley yn gymharol fach, yn enwedig yng nghanol yr wythnos, sy'n awgrymu bod gwariant y gwylwyr yn lleol yn fach. Mae'r ffigurau isel, ynghyd â'r newid tuag at ffrydio cyfryngau fel y brif ffynhonnell refeniw, yn dangos ymhellach bod gweithgarwch economaidd ar y safle yn annhebygol o fod yn elfen arwyddocaol o incwm lletygarwch neu fanwerthu yr economi leol.

8.38. Gan mai Valley yw'r unig le rasio milgwn yng Nghymru, mae unrhyw effeithiau economaidd uniongyrchol wedi'u crynhoi'n ddaearyddol mewn un ardal. Nid oes cymunedau eraill sy'n dibynnu ar dwristiaeth sy'n gysylltiedig â milgwn na gweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig â rasio milgwn. O ganlyniad, disgwylir i effaith economaidd y gwaharddiad ar lefel genedlaethol fod yn fach iawn.

8.39. Mae Valley wedi nodi bod ganddynt opsiwn ar gyfer ailbwrpasu'r safle, pe bai rasio milgwn yn dod i ben, sef defnyddio'r safle fel canolfan bosibl ar gyfer hyfforddi milgwn, gyda hyfforddwyr yn teithio i draciau eraill y tu allan i Gymru i rasio eu milgwn. Fodd bynnag, ni fyddai'r gwaharddiad yn caniatáu hyfforddi milgwn o amgylch trac gan ddefnyddio llith mecanyddol, felly tybir bod y cynnig hwn yn cyfeirio yn hytrach at gyfleuster lletya cŵn yn hytrach na thrac hyfforddi gweithredol. Mae'r mater wedi'i drafod yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredu, ac mae'r defnydd o'r safle yn y dyfodol pe bai gwaharddiad yn parhau'n destun

trafod i'r grŵp. Mae Valley wedi cadarnhau hefyd nad yw'n gallu amcangyfrif y costau na'r amserlenni all fod ynghlwm wrth ailddatblygu neu ailbwrpasu'r safle. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn tynnu sylw hefyd at sawl cyfyngiad, gan gynnwys heriau cynllunio tebygol a allai gyfyngu ar opsiynau datblygu. Mae Valley yn nodi ymhellach, yn dilyn buddsoddiad diweddar sylweddol, fod y perchennog yn amharod i ymrwymo i fuddsoddiad pellach yng Nghymru, gan ychwanegu ansicrwydd at ddichonoldeb unrhyw waith ailbwrpasu yn y dyfodol. Nid oes unrhyw werth ariannol wedi'i roi ar y safle, ac nid yw Valley wedi rhoi unrhyw arwydd bod gwerthu'r safle yn ystyriaeth.

**Effaith ar Awdurdodau Lleol, yr heddlu a'r system gyfiawnder**

8.40. Mae costau posibl i'r awdurdod lleol, yr heddlu a'r system gyfiawnder wrth orfodi gwaharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru.

8.41. Y bwriad yw y bydd yr awdurdod lleol yn gorfodi'r ddeddfwriaeth hon, gan ddefnyddio ei swyddogion trwyddedu presennol i gymryd camau gorfodi yn ôl yr angen. Ar hyn o bryd, rhagwelir na fydd yr awdurdod lleol yn ymateb yn rhagweithiol i orfodi a dim ond os adroddir bod rasio anghyfreithlon yn digwydd y bydd yn cymryd camau. Amcangyfrifir bod cost gorfodi un gweithrediad i orfodi'r Ddeddf rhwng £5,000–£10,000. Fodd bynnag, disgwylir y bydd achosion o dorcyfraith yn brin iawn (os bydd rhai o gwbl) a'n hamcangyfrif gorau o gostau gorfodi dros y cyfnod arfarnu pum mlynedd yw £sero.

8.42. Bydd Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn ei gwneud yn drosedd i weithredwr ddefnyddio stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru, neu dan wybod ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio, i rasio milgwn. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n drosedd i berson fod yn gysylltiedig â threfnu ras milgwn sy'n digwydd, neu y bwriedir iddi ddigwydd, yng Nghymru.

8.43. Mae person sy'n euog o drosedd yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy ddiderfyn. Ystyriwyd yr effeithiau a ragwelir ar y system cyfiawnder troseddol. Yr amcangyfrif gorau o'r effaith ar y System Gyfiawnder yw £sero. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ffurflen Nodi’r Effaith ar y System Gyfiawnder i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a phenderfynodd y Weinyddiaeth y byddai effaith y Ddeddf ar y System Gyfiawnder yn sero/bach iawn.

8.44. Fel y nodwyd, swyddogion trwyddedu presennol fydd yn gyfrifol am orfodi'r gwaharddiad ar rasio milgwn o dan y fframwaith deddfwriaethol newydd. Gan mai’r amcangyfrif o nifer y camau gorfodi yw £sero, nid ydym yn rhagweld unrhyw gostau ychwanegol i'r system gyfiawnder nac i heddluoedd.

**Effaith ar Lywodraeth Cymru**

8.45. Mae rhannau o'r cyhoedd yng Nghymru a nifer o sefydliadau'r trydydd sector wedi bod yn ymgyrchu dros wahardd rasio milgwn ac mae gohebiaeth reolaidd wedi dod i law Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd i'r perwyl hwnnw. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymateb i 159 o lythyrau/negeseuon e-bost ar y pwnc hwn ers 2020.

8.46. Mae ymateb i ohebiaeth yn gallu cymryd llawer o amser, gyda phob ymateb, ar gyfartaledd, yn cymryd hanner diwrnod o amser Swyddog Gweithredol (EO) neu Swyddog Gweithredol Uwch (HEO), ar gyfradd ddyddiol o rhwng £200 a £300. Gan ragdybio rhaniad 50/50 rhwng EO a HEO, mae ymateb i ohebiaeth ar y pwnc hwn wedi costio tua £4,800 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru dros y 4 blynedd diwethaf (Hydref 2020 - Gorffennaf 2025).

8.47. Disgwylir i ohebiaeth ar y pwnc hwn leihau'n sylweddol os gwaharddir rasio milgwn. Er na ellir diystyru cynnydd mewn gohebiaeth gan y rhai sy'n gwrthwynebu'r gwaharddiad, neu gan unigolion sy'n galw am ei ymestyn i gynnwys hyfforddwyr a bridwyr, mae'n annhebygol o gyrraedd yr un raddfa. Rhagwelir y byddai gohebiaeth yn gostwng i oddeutu 20% o'r lefelau blaenorol o ohebiaeth ar y pwnc hwn, gan arwain at arbediad net o oddeutu £3,800 y flwyddyn. Disgwylir i'r arbediad hwn gael ei wireddu o 2027-28 ymlaen.

8.48. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu cost weithredu fach i ddatblygu canllawiau dwyieithog ar gyfer Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru), gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid. Amcangyfrifir mai £6,600 fydd y gost hon. Mae'r rhain yn gostau cyfle sy'n gysylltiedig ag amser staff presennol. Disgwylir i’r holl gostau gweinyddol gael eu hysgwyddo rhwng 2027-30.

8.49. Rhagwelir y bydd datblygu canllawiau, yn seiliedig ar amcangyfrif o 5,000 o eiriau, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn addas i'r diben, yn cymryd tua phedair wythnos dros gyfnod o dri mis o amser Swyddog Gweithredol Uwch, sy'n cyfateb i £5,400. Bydd y canllawiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddai cyfieithu'n cymryd tua phedwar diwrnod o amser Swyddog Gweithredol Uwch, sy'n cyfateb i £1,100. Byddai dylunio yn gofyn am oddeutu hanner diwrnod o amser tîm, a fyddai'n cyfateb i £100. Byddai canllawiau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'u rhannu'n electronig gydag awdurdodau lleol, y diwydiant a rhanddeiliaid. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu a dosbarthu. Byddai’r holl gostau sy’n gysylltiedig â chynhyrchu’r canllawiau yn cael eu hysgwyddo yn 2027-28. Byddai cyfanswm y gost ar gyfer paratoi canllawiau yn dod i oddeutu £6,600.

8.50. Bydd costau cyfathrebu gwaharddiad ar rasio milgwn hefyd yn disgyn i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi'r newid i'r busnesau yr effeithir arnynt, er enghraifft, drwy bost uniongyrchol, cyhoeddi hysbysiadau i'r wasg a defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Disgwylir i hyn gymryd hyd at wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch, sy'n cyfateb i £1,400. Disgwylir i’r gost hon gael ei hysgwyddo yn 2027-28.

8.51. Mae'r Grŵp Gweithredu wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru i gynghori ar y trawsnewid tuag at wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Mae'n dwyn ynghyd arbenigedd o bob rhan o'r sector i gefnogi trawsnewid trefnus a theg. Fel rhan o'i gylch gorchwyl, mae’r Grŵp wedi bod yn cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol i Lywodraeth Cymru drwy adroddiadau i Weinidogion Cymru, a byddant yn parhau i wneud hynny. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r Grŵp wedi'u hamlinellu yn y tabl costau yn adran 6 uchod, sy'n cwmpasu tâl y Cadeirydd, treuliau rhesymol, ysgrifenyddiaeth y grŵp a'r costau cyfle ar gyfer

amser yr aelodau. Amcangyfrifir bod cost flynyddol y grŵp gweithredu yn £23,000 (gan gynnwys costau cyfle).

**Manteision**

8.52. O dan yr opsiwn hwn, bydd rasio milgwn yng Nghymru yn cael ei wahardd. Fel y disgrifir ym Mhennod 3 a Phennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol ac yn y bennod hon, mae gan y cyhoedd deimladau cryf bod milgwn yn cael eu hecsbloetio a'u gweld fel nwyddau ac yn cael eu heffeithio'n negyddol gan rasio. Mae'r teimladau cryf hyn yn amlwg yn y gefnogaeth gan unigolion, sefydliadau ac Aelodau o'r Senedd i wahardd rasio.

8.53. Mae'n amlwg o sylwadau yn yr ymateb i'r ddeiseb *Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru* a'r ymateb i'r cwestiynau ar filgwn yn yr ymgynghoriad *Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid*[76][77] bod y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno bod arferion rasio sy'n trin milgwn fel nwyddau yn gallu effeithio'n negyddol ar eu lles. Byddai gwaharddiad hefyd yn golygu bod Cymru'n cyd-fynd â gwledydd eraill sydd wedi cymryd neu'n bwriadu gwneud yr un fath, gan gynnwys Seland Newydd, ac yn fwyaf diweddar Bil Aelodau, a gafodd ei basio gan Senedd yr Alban ym mis Mawrth 2026.

8.54. Mae'n fwyfwy anodd cyfiawnhau rasio milgwn o ystyried y cyfraddau anafiadau a marwolaethau, y pryderon lles ehangach a'r canlyniadau i'r milgwn ar ôl eu gyrfa rasio. Mae'n amlwg o drafod â rhanddeiliaid fod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno na ddylai anifeiliaid gael eu gweld fel nwyddau ar gyfer ein diddanu, ond yn hytrach fel bodau ymdeimladol sydd â'u hanghenion unigryw eu hunain.

8.55. Fel yr amlinellwyd uchod, mae nifer y rasys a gynhelir yn Valley wedi bod yn cynyddu ers iddo gael ei drwyddedu gan y GBGB yn 2023, a gellir rhagdybio y byddai'r 265 milgi sy'n gysylltiedig â Valley yn cael eu heffeithio'n negyddol gan y cynnydd neu'r parhad hwn.

8.56. Mae data a gyhoeddwyd gan y GBGB[78] ym mis Mehefin 2025 yn darparu data hyd at a chan gynnwys 2024. Mae'n dangos, o 355,682 o achosion o gŵn yn rasio yn 2024, i lawr o 364,981 yn 2023, cofnodwyd 3,809 o anafiadau, i lawr o 4,238 yn 2023, a 123 o farwolaethau cysylltiedig â’r trac, i fyny o 109 yn 2023. Bu 30,331 o anafiadau unigol a 1,100 o farwolaethau ar draws cyfanswm o 2,598,365 o achosion o gŵn yn rasio ar draciau a weithredir gan GBGB rhwng 2018 a 2024.

8.57. Mae modd dangos a mesur y niwed a wneir i filgwn gan rasio yn adroddiadau blynyddol y GBGB. Byddai gwahardd rasio milgwn yn ffordd uniongyrchol ac effeithiol o atal y niwed hwn y gellir ei osgoi. Mae hefyd yn adlewyrchu safbwynt moesol clir y rhai sy'n cefnogi gwaharddiad, gan fod amlygu milgwn i'r lefel hon

[76] P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru
[77] Trwyddedu gweithgareddau, arddangosfeydd a sefydliadau lles anifeiliaid | LLYW.CYMRU
[78] Injury and Retirement Data | Greyhound Board of Great Britain

o risg a dioddefaint o fwriad at ddibenion adloniant a budd masnachol yn annerbyniol. Byddai gwaharddiad yn atal niwed ac yn cyd-fynd â phryder cynyddol y cyhoedd am sut y mae anifeiliaid yn cael eu defnyddio mewn adloniant.

8.58. Mae ffigurau 2024 a gyhoeddwyd gan y GBGB wedi ymgorffori Valley am y tro cyntaf, ar ôl iddo ddod o dan fantell y GBGB ddiwedd 2023. Ychydig o ddata sydd gennym gan Valley; er bod ei ddata bellach wedi'i gynnwys yn yr ystadegau diweddar ar gyfer Prydain gyfan, nid oes modd nodi ei ystadegau penodol ac nid oes adroddiad ar wahân ar ei gyfer. Nid oes unrhyw arwydd bod cyfraddau anafiadau neu farwolaethau yn Valley yn wahanol iawn i'r duedd hon, gan ei fod yn cadw at yr un safonau GBGB â thraciau trwyddedig eraill.

8.59. Fel y disgrifir ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol, canfu adolygiad SAWC 2023, *Welfare of greyhounds used for racing: adroddiad*[79]*,* y byddai'n debygol o fod yn fuddiol i les milgwn pe na baent yn cael eu defnyddio ar gyfer rasio. Tynnodd yr adroddiad sylw at risgiau difrifol, megis anafiadau ar draciau yn y DU, a nododd fod y diwydiant wedi bod yn araf i wneud y newidiadau mawr sydd eu hangen i ddatrys y problemau hyn. Er bod yr adolygiad wedi'i wneud ar gyfer Llywodraeth yr Alban, mae ei ganfyddiadau yn dal i fod yn berthnasol i Gymru, gan fod yr adroddiad yn rhoi darlun gwerthfawr o faterion ehangach ar gyfer milgwn sy'n rasio.

8.60. Fel y disgrifir ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Seland Newydd wedi adeiladu corff cryf o dystiolaeth dros y degawd diwethaf sy'n tynnu sylw at bryderon lles parhaus yn y byd rasio milgwn. Gan ddechrau gydag Adroddiad WHK 2013 ac yna Adroddiad Hansen 2017[80], anogwyd y diwydiant i fod yn fwy tryloyw ac i wella lles anifeiliaid. Er gwaethaf honiadau o gynnydd, canfu adolygiad annibynnol yn 2021[81] fod problemau'n parhau. Arweiniodd gwaith monitro parhaus gan y Racing Integrity Board at benderfyniad terfynol yn 2022 i ddirwyn rasio milgwn i ben yn gyfan gwbl erbyn mis Gorffennaf 2026 yn Seland Newydd, oherwydd methiant y diwydiant i fodloni safonau lles. Er bod y dystiolaeth hon yn dod o'r tu allan i Gymru, mae'n cynnig darlun gwerthfawr o'r risgiau a'r heriau sy'n gysylltiedig â rasio milgwn. Mae'n darparu cynsail rhyngwladol cryf a all gefnogi gwaharddiad yma, gan helpu i atal niwed tebyg i filgwn yng Nghymru.

8.61. Trwy wahardd rasio milgwn yng Nghymru, mae'n rhesymol rhagdybio y bydd milgwn yn dioddef llai o anafiadau a marwolaethau drwy rasio, gan arwain at well lles yn gyffredinol, os sicrheir bod y mwyafrif o'r rhai sy'n cael eu magu a'u cadw ar gyfer rasio ar hyn o bryd yn cael eu hailgartrefu fel anifeiliaid anwes sy'n cael gofal da. Gellid rhagdybio hefyd y bydd gwaharddiad ar rasio milgwn yn arwain at lai o filgwn yn cael eu bridio, eu hyfforddi neu eu cadw at

[79] Welfare of greyhounds used for racing: report - gov.scot
[80] Racing Policy - dia.govt.nz
[81] Greyhound-Review-Final-Report-12-December-2022.pdf

ddibenion rasio yng Nghymru dros amser, a fyddai'n lleihau pryderon negyddol ynghylch pethau fel gorfridio, amodau llety cŵn ac esgeulustod.

8.62. Mae’r gwaharddiad ar rasio milgwn yn dangos ein bod yn poeni am sut y mae anifeiliaid yn cael eu trin yn ein cymdeithas. Efallai nad yw rasio milgwn, fel y mae'n gweithredu ar hyn o bryd, yn rhoi'r hyn y gellid ei ystyried yn 'fywyd da' i'r milgwn hynny ac, mewn rhai achosion, efallai nad yw hyd yn oed yn cyrraedd y trothwy 'bywyd sy'n werth ei fyw’. Mae pryderon ynghylch anafiadau, cadw mewn amodau cyfyng ac ansicrwydd bywyd ar ôl rasio yn codi cwestiynau difrifol ynghylch a oes modd diwallu anghenion lles yr anifeiliaid hyn yn y diwydiant. Mae dirwyn rasio milgwn i ben yng Nghymru yn anfon neges glir ein bod wedi ymrwymo i ddiogelu lles anifeiliaid a sicrhau bod pob anifail yn cael y cyfle i fyw bywydau diogel, iach a bodlon.

8.63. Gallai gwahardd rasio milgwn yng Nghymru arwain at arbedion cost hirdymor i elusennau lles anifeiliaid sy'n ymwneud ag ailgartrefu milgwn rasio sydd wedi ymddeol. Gyda llai o filgwn yn mynd i mewn i'r diwydiant rasio, byddai nifer y milgwn hynny sydd angen eu hailgartrefu yn gostwng yn raddol, gan leddfu'r baich ariannol a logistaidd ar y sefydliadau hyn. Fodd bynnag, gan fod disgwyl i rasio milgwn barhau yn Lloegr a Gweriniaeth Iwerddon, gall yr effaith gyffredinol ar bwysau ailgartrefu yng Nghymru fod yn gyfyngedig. Gallai symud milgwn sydd wedi ymddeol dros y ffin olygu bod elusennau Cymru yn dal i wynebu galw o'r tu allan i'r wlad, gan wanhau manteision gwaharddiad yng Nghymru yn unig o bosibl.

### Anfanteision

8.64. Fel yr amlinellwyd eisoes yn y bennod hon, byddai gwaharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru yn cael effaith negyddol ar berchennog a gweithwyr Valley, gan gynnwys colli unrhyw elw a wneir gan y perchennog o ganlyniad i gynnal rasys ar y trac, a cholli incwm i unrhyw unigolion sy'n cael eu cyflogi ar y trac. Yn ogystal, byddai gwaharddiad o'r fath yn effeithio'n andwyol ar berchnogion a hyfforddwyr milgwn, sy'n dibynnu ar y diwydiant rasio fel ffynhonnell incwm.

8.65. Ar hyn o bryd, mae Valley yn rhan o'i gymuned leol. Rhagdybir bod cwsmeriaid sy'n mynychu rasys yn rheolaidd yn cael budd o wylio'r rasys ac o'r rhwydweithiau cymdeithasol y maent wedi'u datblygu o amgylch y gweithgarwch. Felly, gallai gwaharddiad ar rasio arwain at golli mwynhad a chyfleoedd cymdeithasol i'r unigolion hyn. Cost mynediad i oedolyn yn Valley yw £5[82], a disgwylir bod y budd sy'n deillio o fynychu digwyddiad yn fwy na'r gwerth hwn. Fodd bynnag, yn dilyn y gwaharddiad ar rasio milgwn, byddai disgwyl i wylwyr symud i fwynhau eu hail ddewis o nwydd neu wasanaeth, gan golli llai o'u lles. Yn yr un modd, mae llawer o'r perchenogion a'r hyfforddwyr sy'n gysylltiedig â'r trac yn cael incwm a chysylltiadau proffesiynol o'r ffaith eu

[82] Greyhounds | Valley Greyhounds | Wales

bod yn cymryd rhan mewn rasio. Byddai gwaharddiad yn debygol o arwain at golli bywoliaeth a chyfranogiad yn y diwydiant iddynt hefyd.

8.66. Mae’r nifer sy’n mynychu'r rasys yn parhau’n anhysbys, felly mae'n anodd mesur yr effaith ar yr economi leol ehangach, megis y defnydd o rwydweithiau teithio neu ddarparwyr lletygarwch. Gellid rhagdybio bod y mwyafrif o bobl sy'n mynychu'r trac i wylio rasys yn unigolion lleol a, phe na baent yn mynychu'r trac rasio, disgwylir y byddent yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau hamdden lleol, gan ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny yn lle'r trac rasio. Disgwylir i'r dadleoliad hwn leihau unrhyw effaith ar yr economi leol ehangach, er y gallai busnesau unigol yn agos at y stadiwm gael eu heffeithio'n negyddol o hyd.

8.67. Dywedir bod 12 o hyfforddwyr milgwn wedi'u cofrestru ar hyn o bryd i rasio yng Nghymru gyda GBGB, gyda 250-300 o filgwn yn gymwys i rasio yn Valley. Tybir eu bod yn filgwn sy'n rasio ar hyn o bryd ac nad ydynt yn cynnwys milgwn ifanc sydd eto i rasio ac unrhyw filgwn sydd wedi'u cadw/wedi ymddeol i'w defnyddio ar gyfer bridio. Mae'r incwm a gynhyrchir gan hyfforddwyr sy'n gysylltiedig â Valley yn anhysbys ar hyn o bryd. O ganlyniad, nid oes modd asesu'n gywir y colledion ariannol y gallai hyfforddwyr cofrestredig eu profi oherwydd gwaharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru. Felly, mae'r gost hon yn anhysbys.

8.68. Mae'r hyfforddwyr hyn yn rasio eu milgwn yn Valley yn bennaf. Mae'n anodd mesur yr effaith ar hyfforddwyr yng Nghymru. Yn dilyn y gwaharddiad, efallai y bydd rhai yn ceisio parhau i rasio yn Lloegr, a allai gyflwyno beichiau logistaidd ac ariannol ychwanegol oherwydd gofynion teithio cynyddol. Efallai y bydd eraill yn dewis gadael y diwydiant yn gyfan gwbl.

8.69. Stadiwm Milgwn Swindon oedd y trac hawsaf i'w gyrraedd yn Lloegr i hyfforddwyr o'r De, gan ei wneud yn hygyrch i hyfforddwyr Cymru. Ers cyhoeddi bod y trac hwnnw’n cau, mae'r traciau agosaf bellach yng nghanolbarth Lloegr. Mae'r rhain ymhellach i ffwrdd, sy'n golygu amseroedd teithio hirach i filgwn rasio sy'n cael eu cludo a chostau cludiant uwch. Gallai'r newid hwn ei gwneud yn anoddach i rai hyfforddwyr barhau i rasio'n rheolaidd a gallai effeithio ar faint sy'n aros yn y byd rasio milgwn.

8.70. Yn ogystal, gall unigolion sy'n ennill incwm o'r trac rasio ond nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Valley, fel y rhai sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau, fel bwci ar ochr y trac a chontractwyr lletygarwch, golli incwm ar ôl i'r trac gau. Ni fu modd amcangyfrif y costau hyn, felly maent yn anhysbys.

8.71. Mae’r GBGB yn rhedeg Cynllun Ymddeol Milgwn (GRS)[83] sy'n seiliedig ar fondiau i gefnogi ailgartrefu. Mae perchnogion yn talu £210 wrth gofrestru milgi i rasio, gyda’r GBGB yn cyfrannu £210 arall, gan greu bond o £420. Mae hwn

[83] Greyhound Retirement Scheme | Greyhound Board of Great Britain

yn cael ei dalu i ganolfannau ailgartrefu cymeradwy pan fydd y milgi'n ymddeol, gan helpu i dalu costau ailgartrefu. Nod y cynllun yw hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol a lleddfu'r baich ariannol ar sefydliadau ailgartrefu.

8.72. Mae rhai sefydliadau ailgartrefu yn dewis peidio â chymryd rhan yng nghynllun y GBGB. Mae gan y grwpiau hyn yn aml wrthwynebiadau moesol cryf i rasio milgwn, ac mae'n well ganddynt beidio â bod yn gysylltiedig yn ariannol â'r diwydiant. Yn ogystal, mae GBGB wedi cadarnhau mai dim ond canolfannau ailgartrefu nad ydynt yn cefnogi gwaharddiad ar rasio milgwn, y mae’n eu cymeradwyo. Mae'r safbwynt hwn yn cyfyngu ar nifer y partneriaid ailgartrefu cymwys ac yn eithrio rhai sefydliadau lles sefydledig, gan leihau'r rhwydwaith o gymorth sydd ar gael i filgwn sydd wedi ymddeol.

8.73. Mae sefydliadau lles sy'n aelodau o'r Grŵp Gweithredu, ynghyd â'r rhai sy'n cefnogi ei waith fel rhan o rwydwaith ehangach o sefydliadau, yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod y milgwn yr effeithir arnynt gan waharddiad yng Nghymru yn cael eu hailgartrefu'n ddiogel ac yn briodol. Ar hyn o bryd nid yw'r sefydliadau hyn yn derbyn bond ailgartrefu GBGB trwy'r GRS, sy'n golygu bod eu cyfraniad at ymdrechion ailgartrefu yn cael ei ddarparu heb gymorth ariannol gan y diwydiant. Efallai y bydd rhai milgwn yn parhau i gael eu defnyddio i rasio yn Lloegr, tra gall eraill ymddeol ac aros gyda'u perchnogion neu hyfforddwyr presennol. Ond bydd angen cartrefi newydd ar lawer, a rhaid i ni sicrhau nad ydynt yn cael eu rhoi mewn perygl oherwydd y newid. Dyna pam mae cynllun clir a threfnus ar gyfer ailgartrefu yn hanfodol. Mae cynrychiolwyr y Grŵp Gweithredu wedi ymrwymo i wneud i hyn ddigwydd a sicrhau bod lles y milgwn yn flaenoriaeth.

8.74. Bydd cyfnod pontio o 12 mis o leiaf rhwng y Cydsyniad Brenhinol a darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym. Bwriad hyn yw rhoi digon o amser i Valley baratoi ei safle a'i staff, ac i sicrhau lles milgwn rasio, gan gynnwys ailgartrefu posibl. Gan mai dim ond un trac rasio sydd yng Nghymru, disgwylir y bydd y trawsnewidiad i waharddiad yn rhoi digon o amser i randdeiliaid y diwydiant, elusennau lles anifeiliaid a’r GBGB baratoi. Bydd cefnogaeth a chyngor y Grŵp Gweithredu yn allweddol wrth nodi a lliniaru unrhyw effeithiau cysylltiedig.

**Crynodeb**

8.75. Mae'r ansicrwydd a'r diffyg gwybodaeth ariannol sydd ar gael i'r cyhoedd am rasio milgwn yng Nghymru yn golygu bod manteision mesuradwy yn anodd eu hasesu.  Fodd bynnag, disgwylir i effaith gwerth cymdeithasol net (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) y Ddeddf fod yn gyfyngedig o ystyried maint y diwydiant rasio milgwn yng Nghymru. Disgwylir i Opsiwn 3 arwain at gostau gweinyddol ychwanegol bach iawn ar gyrff cyhoeddus (a chostau gweinyddol llawer is na chynllun trwyddedu). Er bod gwahardd rasio milgwn yn debygol o gael effaith ariannol negyddol ar nifer fach o fusnesau yng Nghymru, ystyrir bod yr effeithiau hynny'n cael eu gorbwyso gan y pryderon moesegol sy'n gysylltiedig â rasio milgwn, sy’n gwneud milgwn yn agored i niwed y gellir ei

atal er mwyn adloniant ac elw masnachol. Nid yw pryderon moesegol a lles anifeiliaid yn cael eu hystyried yn uniongyrchol, felly maent yn rhan o'r manteision heb eu meintioli. Mae'r opsiwn a ffefrir yn bodloni'r amcan ac yn lleihau costau gweinyddol, felly mae'n cynnig gwell gwerth am arian i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol. Ar y sail honno, opsiwn 3 – cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd rasio milgwn yng Nghymru – oedd yr opsiwn a ffefrir.

8.76. Hyd yn hyn, ychydig o wybodaeth sydd wedi'i darparu gan y diwydiant a chan yr unig fusnes rasio milgwn sy'n gweithredu yng Nghymru. Nid yw llawer o'r wybodaeth a ddarperir yn cynnwys ffigurau blynyddol clir, rhagamcanion, na darlun llawn o ymrwymiadau ariannol cylchol. Yn benodol, nid oes unrhyw wybodaeth am wariant, incwm neu elw blynyddol ar gael. Rydym wedi cwblhau ein hasesiad ar sail y wybodaeth sydd gennym. Fodd bynnag, mae diffyg data llawn yn golygu nad yw'n bosibl gwybod beth yw sefyllfa ariannol y busnes nac asesu'r effaith economaidd a chymdeithasol ehangach. Mae'r diffyg gwybodaeth gadarn hefyd yn ein rhwystro rhag cynnal asesiad cynhwysfawr o'r graddau y mae cymunedau lleol a chadwyni cyflenwi yn dibynnu ar incwm sy'n gysylltiedig â rasio, neu a gymerid lle'r gweithgarwch economaidd a gollir yn sgil y gwaharddiad gan ffurfiau eraill ar fasnachu lleol dros amser.

8.77. Bydd gwaith y Grŵp Gweithredu yn helpu i liniaru effeithiau'r Ddeddf trwy ganolbwyntio ar liniaru effeithiau ar les milgwn, y diwydiant, yr economi leol a chymunedau.

## 9. Asesiadau o’r Effaith

9.1. Mae Asesiad Effaith Integredig (IIA) wedi'i gynnal o'r darpariaethau yn y Ddeddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru). Mae crynodeb o'r effeithiau isod. Mae’r asesiad effaith integredig wedi cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

9.2. Cynhaliwyd asesiadau penodol i ddeall effaith y Bil ar y meysydd canlynol:

- Cydraddoldeb
- Hawliau plant
- Y Gymraeg
- Bioamrywiaeth a'r amgylchedd
- Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol
- Preifatrwydd a diogelu data
- Cyfiawnder

9.3. Ar ôl sgrinio, penderfynwyd nad oedd angen asesiad llawn o’r effeithiau ar unigolion a chymunedau gwledig ac ar iechyd y boblogaeth gyffredinol.

9.4. Mae ein gwaith sgrinio cychwynnol wedi dangos i ni y gallai'r materion rydym wedi'u hystyried ar gyfer rhai o'n hasesiadau effaith eraill effeithio ar iechyd hefyd. Fodd bynnag, ni fyddai hyn o fewn y boblogaeth gyffredinol. Fel y nodir isod, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid yr effeithir arnynt yn uniongyrchol i liniaru'r effeithiau hyn.

9.5. Rydym o'r farn nad oes unrhyw effeithiau ar fywyd gwledig. Ar hyn o bryd, dim ond un trac rasio milgwn sydd yng Nghymru, ac nid yw wedi'i leoli mewn ardal a ystyrir o fewn y diffiniad eang o wledig[84].

9.6. Mae'r effeithiau a nodwyd gan yr asesiadau hyn wedi cael eu hadolygu wrth i'r ddeddfwriaeth symud yn ei blaen drwy'r Senedd ac wedi cael eu diweddaru gydag unrhyw wybodaeth newydd sydd wedi'i darparu i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i ystyried sut y gellid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Mae nodi a datblygu mesurau lliniaru, ynghyd â rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol, yn swyddogaeth graidd y Grŵp Gweithredu, a'i rôl yw helpu trawsnewid trefnus a rhesymol oddi wrth rasio milgwn yng Nghymru. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol drwy'r Grŵp Gweithredu yn parhau, gan alluogi iddo barhau i asesu effeithiau posibl y Ddeddf a nodi camau lliniaru priodol.

[84] SB10/2008 - Rural Wales: Definitions and how to choose between them

**Crynodeb o’r Asesiad Effaith Integredig**

9.7. Isod ceir crynodeb o'r asesiadau penodol a gynhaliwyd i ddeall effaith y Bil ar y meysydd canlynol:

- Cydraddoldeb
- Hawliau plant
- Y Gymraeg
- Bioamrywiaeth a'r amgylchedd
- Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol
- Preifatrwydd a diogelu data
- Cyfiawnder

**Effaith ar gydraddoldeb**

9.8. Mae effaith y Ddeddf ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig wedi'i hystyried. Mae ein hasesiad wedi nodi bod disgwyl i ddarpariaethau'r Ddeddf effeithio ar bawb yn yr un modd. Mae hyn yn cynnwys effaith y Ddeddf ar Erthygl 8 ac Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Bydd ail rifyn yr asesiad yn amlinellu na fydd unrhyw effeithiau ar y gymuned ehangach yn benodol i unrhyw berson neu grŵp o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, ond i gymdeithas yn ehangach.

**Effaith ar hawliau plant**

9.9. Mae effaith y Ddeddf ar hawliau plant wedi'i hystyried. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod effaith gadarnhaol ar yr ymddygiadau a'r agweddau hirdymor sydd gan blant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid. Fodd bynnag, mae effaith negyddol bosibl ar blant teuluoedd sy'n dibynnu ar rasio milgwn am swyddi ac incwm. Rydym yn gweithio i ddeall lefel wirioneddol yr effaith hon, ac i'w lliniaru gymaint â phosibl.

**Effaith ar y Gymraeg**

9.10. Mae effaith y Ddeddf ar y Gymraeg wedi'i hystyried. Mae’n awgrymu na fyddai fawr ddim effaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar y defnydd o'r Gymraeg o ganlyniad i wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Roedd yr asesiad effaith yn cynnwys ystyried effaith y Ddeddf ar siaradwyr Cymraeg, grwpiau Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr a gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.

**Effaith ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth**

9.11. Mae effaith y Ddeddf ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth wedi'i hystyried. Mae’n awgrymu na fyddai fawr ddim effaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, efallai y bydd effeithiau eilaidd.

9.12. Mae'r unig drac rasio yng Nghymru yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd y gwaharddiad yn effeithio ar ddyfodol y stadiwm. Y tirfeddiannwr a'r awdurdod lleol fydd yn penderfynu beth fydd yn digwydd i'r tir, o ganlyniad i'r

gwaharddiad. Bydd y penderfyniad hwn yn destun asesiad priodol o'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd lleol a bioamrywiaeth gan yr awdurdod cynllunio lleol.

## Effaith ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

9.13. Mae effaith y Ddeddf o ran y ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol[85] wedi'i hystyried. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw priodol i sut y gall eu penderfyniadau strategol leihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r asesiad yn archwilio effeithiau posibl gwahardd rasio milgwn yng Nghymru, gan gydnabod y gallai'r penderfyniad effeithio ar unigolion sydd ar hyn o bryd yn elwa o gyflogaeth hygyrch a chyfleoedd cymdeithasol isel eu cost sy'n gysylltiedig â'r diwydiant, yn enwedig yn Ystrad Mynach. Mae'r asesiad yn nodi cyfleoedd ar gyfer canlyniadau cadarnhaol trwy fynediad at ailhyfforddi, cymorth i fod yn gyflogadwy a mentrau datblygu cymunedol, gan gynnwys rhaglenni fel ReAct+ a Communities for Work+. Mae'r mesurau hyn yn darparu llwybr i sicrhau buddion tymor hir, gan gynnwys gwell cyflogadwyedd, cysylltiadau cymdeithasol cryfach a mwy o wydnwch o fewn cymunedau lleol.

9.14. Nod cyngor ac arweiniad ymarferol parhaus gan y Grŵp Gweithredu yw sicrhau bod risgiau'n cael eu lliniaru a bod cymorth yn parhau i ymateb i anghenion unigolion a chymunedau yr effeithir arnynt fwyaf.

## Effaith ar y system gyfiawnder

9.15. Mae effaith y Ddeddf ar y system gyfiawnder wedi'i hystyried. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ffurflen Nodi’r Effaith ar y System Gyfiawnder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a phenderfynodd y Weinyddiaeth fod effaith y Ddeddf ar y System Gyfiawnder yn sero/bach iawn. Mae Adran yr Arglwyddes Brif Ustus hefyd wedi trafod yr effaith y rhagwelir y bydd y Ddeddf yn ei chael ar y system gyfiawnder.

9.16. Mae'r Ddeddf yn creu troseddau newydd sy'n cynnwys pan fydd person sy'n weithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru yn ei ddefnyddio, neu'n caniatáu iddo gael ei ddefnyddio, ar gyfer rasio milgwn. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd hefyd fod yn gysylltiedig â threfnu ras milgwn sy'n digwydd, neu y bwriedir iddi ddigwydd, yng Nghymru. Diben y troseddau yw atal rasio milgwn rhag digwydd ar yr un trac sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd, neu ar draciau eraill yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau ynghylch pwerau gorfodi. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu troseddau ychwanegol sy'n ymwneud â rhwystro. Disgwylir mai swyddogion presennol awdurdodau lleol fydd yr arolygwyr a fydd yn cymryd y camau gorfodi. Byddai troseddau yn cael eu herlyn yn y Llys Ynadon fel troseddau diannod yn unig.

9.17. Rhagwelir mai ychydig iawn o achosion a gyflwynir ar gyfer camau gorfodi, gan mai dim ond un stadiwm sydd ac oherwydd nifer y perchnogion/hyfforddwyr y gwyddys eu bod yn rasio eu milgwn ar y trac. Disgwylir felly i'r effaith ar y system gyfiawnder o ganlyniad i gyflwyno'r troseddau newydd o dan y

[85] Cymru Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol | LLYW.CYMRU

ddeddfwriaeth hon fod yn fach iawn, ond mae'r niferoedd tebygol o achosion y bydd angen i'r llysoedd eu hystyried yn ansicr. Mae'r ddeddfwriaeth yn unigryw i Gymru ac mae'n bosibl y bydd angen systemau newydd a gweithdrefnau a hyfforddiant yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi ar gyfer unrhyw achosion y bydd yn ofynnol i'r llysoedd eu hystyried er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gorfodi.

**Effaith ar Ddiogelu Data**

9.18. Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu a phrosesu data personol os bydd unigolion yn cyflawni un o'r troseddau a gyflwynir gan y ddeddfwriaeth newydd. Swyddogion awdurdodau lleol fydd yn bennaf gyfrifol am orfodi'r troseddau newydd a gyflwynir gan y Ddeddf. Mae pob awdurdod lleol yn rhannu gwybodaeth drwy gronfa ddata ganolog, gan weithio gyda Safonau Masnach a chynghorau eraill. Mae'r rhannu data hwn yn cael ei lywodraethu gan gytundebau a'i reoli yn unol â pholisïau diogelu data pob awdurdod.

9.19. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata i amcangyfrif yn gywir faint o ddata y bydd hi’n ofynnol i awdurdodau lleol eu casglu. Mae'n debygol o fod yn ddinod neu'n isel iawn gan mai dim ond un stadiwm rasio milgwn sy'n gweithredu yng Nghymru. Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid yr effeithir arnynt drwy'r Grŵp Gweithredu, i helpu i baratoi ar gyfer darpariaethau’r Ddeddf yn dod i rym, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

9.20. Rydym wedi trafod â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y cynnig hwn. Mae asesiad o effaith y Ddeddf ar breifatrwydd a diogelu data wedi'i ystyried yn llawn.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1. Mae Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn ddarostyngedig i adolygiad ar ôl deddfu fel y darperir ar ei gyfer yn adran 5 o'r Ddeddf. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o weithredu ac effaith y Ddeddf, a chydymffurfio â hi, o fewn tair blynedd i gychwyn y gwaharddiad, a rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw, mewn ffordd sy'n briodol yn eu barn nhw.

# Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol

Mae’r Nodiadau Esboniadol ar gyfer Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) 2026 ar gael yma:

# Atodiad 2: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Mae angen y tabl canlynol pan fydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â’r Bil wrth iddo gael ei gyflwyno, i ddangos bod y gofynion Rheolau Sefydlog ar gyfer y Bil wedi cael eu cyflawni. Er nad yw’r Rheolau Sefydlog hyn bellach yn gymwys i’r fersiwn derfynol hon sy’n cyd-fynd â’r Ddeddf, mae’r adran hon wedi cael ei chynnwys er mwyn cyfeirio ati i ddangos y sail resymegol ar gyfer prif adrannau’r Memorandwm Esboniadol.

| **Rheol sefydlog** | | **Adran** | **tudalennau/ paragraffau** |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd | Datganiad yr Aelod | Amh. |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau 5-13, paragraffau 3.1-3.49. |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 31-50 paragraffau 7.1-8.77 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil, ac<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 14-17, paragraffau 4.1-4.25 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 14-17, paragraffau 4.1-4.25 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalen 14, paragraff 4.1 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | | |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tudalen 56 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 20–26 |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 25 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall). | Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalen 19, tabl 5.1. |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn | Amh. |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 53-54, paragraffau 9.15-9.17 |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B i gyflwyno Tabl Tarddiadau yn gymwys i'r Bil hwn, gan fod y Bil yn ddarn o ddeddfwriaeth | Amh. |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | annibynnol nad yw'n deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi. | |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6C ynghylch Atodlen o Ddiwygiadau yn gymwys i'r Bil hwn oherwydd nad yw'r Bil yn cynnig gwneud diwygiadau sylweddol i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol. | Amh. |